# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2024

Tracio camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol

WEN Wales Cymru

OXFAM CYMRU

## CYNNWYS


**03** Cyflwyniad

**06** Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022/2024

**07** Cyllid Teg

**13** Hawliau Menywod Byd-Eang

**19** Cyfrifoldebau Gofalu

**27** Cynrychiolaeth Ac Arweinyddiaeth Cyfartal

**32** Rhoi Diwedd Ar Drais Yn Erbyn Menywod A Merched

**37** TMynd I’r Afael Ag Anghydraddoldeb Iechyd Rhywedd

**42** Cydnabyddiaethau

**42** Methodoleg

**43** Ynghylch Rhcm Cymru Ac Oxfam

# CYFLWYNIAD

Dyma'r pedwerydd iteriad o Gerdyn Sgorio Ffeministaidd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM) ac Oxfam Cymru sy'n gwerthuso perfformiad Llywodraeth Cymru mewn chwe maes allweddol o gydraddoldeb rhywedd.[1] Ers cyhoeddi'r cerdyn sgorio diwethaf ym mis Gorffennaf 2022, mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n fawr ar fenywod yng Nghymru. Maent yn wynebu costau cynyddol a llai o wasanaethau cyhoeddus, a hynny wedi gwaethygu yn sgil gwrthdaro byd-eang cynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cymorth tymor byr drwy fentrau fel y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr - mesurau hanfodol sy'n mynd i'r afael ag anghenion brys. Fodd bynnag, mae'n destun pryder bod y camau brys hyn yn cyd-fynd â dirywiad cyson o ran yr adnoddau a chapasiti sydd ar gael i fynd i'r afael â gwreiddiau systemig hirdymor anghydraddoldeb rhywedd. Mae'r duedd hon yn amlwg o ran toriadau mynych i'r cyllidebau gofal plant a chydraddoldeb, ochr yn ochr â chrebachiad cyflym sector menywod Cymru. Mae'r ffaith fod Chwarae Teg wedi cau ym mis Medi 2023 yn dangos hyn yn glir iawn.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau cadarnhaol, gan darparu cymorth i oroeswyr heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus, a buddsoddiad wedi'i dargedu i iechyd menywod ochr yn ochr â datblygu cynllun iechyd menywod. Mae meysydd eraill, megis gweithredu cyllidebu ar sail rhywedd, ehangu gofal plant ac ymgorffori'r Confensiwn ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) yng nghyfraith wladol, wedi gweld cynnydd cyfyngedig yn unig. Mae pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) - ac yn wir y sector menywod ehangach yng Nghymru - yn gryfach nag erioed, ac mae'r penderfyniad i dynnu deddfwriaeth yn ôl a fyddai wedi cyflwyno cwotâu rhywedd yn etholiadau'r Senedd yn peri rhwystr mawr.

Mae ethol Llywodraeth Lafur yn Etholiad Cyffredinol Llywodraeth y DU 2024 yn cyflwyno'r posibilrwydd o berthynas rhynglywodraethol fwy cydweithredol a'r potensial ar gyfer fframwaith cyllidol newydd. Gyda hyn, bydd menywod yng Nghymru yn edrych yn briodol ar Lywodraeth Cymru i ymdrechu'n arbennig o galed i fynd i'r afael â sbardunau systemig anghydraddoldeb rhywedd trwy gyllidebu ar sail rhywedd, yn ogystal â gweld diwygiadau mawr ar waith ym meysydd gofal plant, iechyd menywod, ymgorffori CEDAW, mesurau diwygio etholiadol pellach a chyllid cynaliadwy ar gyfer VAWDASV.

### Tirwedd polisi a deddfwriaeth

Ers y cerdyn sgorio diwethaf, bu newidiadau polisi sylweddol gyda lansiad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, y ddau â photensial i wella bywydau menywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol.[2] Bu cynnydd cyfyngedig o ran y fframwaith atebolrwydd a monitro cymhleth ar gyfer Cynllun

[1] Cerdyn Sgorio Ffeministaidd | Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
[2] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol; Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru

Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac mae angen ffocws parhaus ar groestoriadedd wrth i gynlluniau gael eu hadnewyddu a'u gweithredu.[3]

Mae datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 yn arbennig o addawol, gyda'r nod o integreiddio gwahanol gynlluniau gweithredu o dan dair egwyddor: prif ffrydio cydraddoldeb, mabwysiadu dull croestoriadol, a mynd i'r afael â'r bwlch gweithredu.[4] Croesewir hefyd waith yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd sy'n cefnogi'r rhain trwy fframweithiau data a gwerthuso.[5] Wrth i'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru ddod i ben yn 2023, mae'n hanfodol bod Cynllun Gweithredu diwygiedig yn cael ei ddatblygu gyda chamau uchelgeisiol a fframwaith gwerthuso cadarn i sicrhau cynnydd mesuradwy.[6]

Mae terfynu Cytundeb Cydweithio 2021 rhwng Llywodraeth Lafur Cymru a Phlaid Cymru ym mis Mai 2024 wedi dod â rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cynlluniau allweddol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd. Mae rhethreg y llywodraeth yn awgrymu bod ymrwymiad parhaus i ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg a chreu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae tynnu deddfwriaeth cwota rhywedd yn ôl ym mis Medi 2024 yn cynrychioli rhwystr sylweddol: roedd hwn yn ymrwymiad allweddol yn y Cytundeb.

Bwriad Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw helpu cyrff cyhoeddus i asesu effaith eu polisïau a'u harferion ar gydraddoldeb, ond mae tystiolaeth gynyddol yn awgrymu nad ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Canfu adolygiad yn 2022 gan Archwilio Cymru nad yw llawer o gyrff cyhoeddus yn defnyddio AEG i'w llawn botensial, gan nodi meysydd allweddol i'w gwella.[7] Yn yr un modd, argymhellodd adroddiad yn 2023 gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol 'brawf cydraddoldeb rhywedd' newydd ar gyfer pob cynnig polisi a chynnig deddfwriaethol. Mae hyn yn tanlinellu methiant AEG cyfredol i ysgogi newid go iawn.[8]

Mae cardiau sgorio blaenorol wedi argymell ymgorffori confensiynau rhyngwladol i gyfraith Cymru, yn benodol CEDAW, CRPD a CERD.[9] Gwnaed ymrwymiadau i ymgorffori CEDAW a CRPD o fewn cyfraith ddomestig fel rhan o Raglen Lywodraethu 2021-26.[10] Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd araf o ran ymgorffori'r cytuniadau hawliau dynol hyn ers Cerdyn Sgorio 2022, gan fwrw ymlaen ag argymhellion Adroddiad Ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru 2021, ac mae'n ymddangos y bydd y gwaith hwn yn parhau i'r Senedd nesaf.[11] Mae'n hanfodol bod

---

[3] Gweithredu, nid geiriau: creu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 | Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd

[4] Ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 i 2028: egwyddorion yr ymagwedd ac amcanion arfaethedig

[5] Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

[6] Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru

[7] Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?

[8] Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd

[9] Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig: Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD); Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu Hiliol (CERD)

[10] Llywodraeth Cymru Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad

[11] Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru; Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: Adroddiad Cynnydd 2024: Rhan 1: gwella canlyniadau cyfiawnder yng Nghymru o dan y setliad cyfansoddiadol presennol; Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Medi 2024

Llywodraeth bresennol Cymru yn gosod y sylfaen ar gyfer hyn, er enghraifft trwy bapur gwyrdd, o fewn tymor y Senedd hon.[12]

# ARGYMHELLION CYFFREDINOL

- **Adnewyddu Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru, a ddaeth i ben yn 2023.**
- **Ymwreiddio CEDAW a chonfensiynau hawliau dynol eraill trwy sicrhau adnoddau priodol i'r gwaith a chyflwyno papur gwyrdd yn nhymor y Senedd hon.**
- **Gosod targedau a fframweithiau atebolrwydd i ymgorffori cynnydd mesuradwy mewn cynlluniau gweithredu cydraddoldeb.**
- **Gweithredu ar unwaith i gefnogi'r sector menywod sy'n crebachu yng Nghymru, gan gynnwys trwy fuddsoddiad ymroddedig.**
- **Sicrhau bod yr Unedau Tystiolaeth yn rhoi blaenoriaeth gyfartal i rywedd ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig eraill, yn darparu data sy'n benodol i rywedd ac yn ystyried profiadau menywod sy'n wynebu sawl math o wahaniaethu.**
- **Gweithredu persbectif cydraddoldeb rhywedd ar bob cam o brosesau llunio polisïau drwy gyllidebu ar sail rhywedd a phrif ffrydio rhywedd.**

[12] Welsh Labour push back plans to enshrine international human rights treaties into Welsh Law | Carmarthenshire News Online

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2022/24

Tracio camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydraddoldeb rhywedd

**ALLWEDD SGORIO:** GWYRDD = CYNNYDD SYLWEDDOL   OREN = PETH CYNNYDD   COCH = BRAIDD DDIM CYNNYDD

## CYLLID TEG

**Sgôr 2024 - Coch**
Sgôr 2022 - Coch

Mae rhai camau cadarnhaol wedi cael eu gwneud, ond mae heriau parhaus yn rhwystro cynnydd cyffredinol. Mae anweithgarwch economaidd ymysg menywod yn parhau'n uchel, ac mae toriadau i wasanaethau hanfodol wedi gwaethygu'r sefyllfa. Mae angen gweithredu ar frys ac yn bendant er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon tuag at gydraddoldeb ariannol.

## MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB IECHYD RHYWEDD

**Sgôr 2024 - Oren**
Sgôr 2022 - Coch

Mae Llywodraeth Cymru wedi adnewyddu ei hymrwymiad i iechyd menywod, gan gyflwyno nyrs endometriosis arbenigol ym mhob bwrdd iechyd a dechrau gweithio ar Gynllun Iechyd Menywod GIG Cymru 10 mlynedd a fydd yn ceisio lleihau oedi diagnostig a gwella gofal ar gyfer ystod o gyflyrau. Mae gwahaniaethau iechyd sylweddol yn parhau, gan gynnwys gwasanaethau menopos cyfyngedig, materion gofal mamol, diagnosis o ganser a mynediad anghyfartal i ofal iechyd, yn enwedig ar gyfer menywod ar y cyrion a chymunedau gwledig.

## RHOI DIWEDD AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

**Sgôr 2024 - Oren**
Sgôr 2022 - Oren/Coch

Mae Llywodraeth Cymru wedi adnewyddu strategaeth VAWDASV ac wedi lansio'r Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr Trais, gan fynd i'r afael â bylchau allweddol. Fodd bynnag, nid yw cyllideb VAWDASV wedi newid, gan greu pwysau cyllido tymor real, ac nid oes cyllid cynaliadwy ar gyfer sefydliadau arbenigol wedi'i roi ar waith hyd yma. Mae problemau o ran capasiti yn parhau, gan adael llawer o oroeswyr heb ddigon o gefnogaeth.

## CYNRYCHIOLAETH AC ARWEINYDDIAETH CYFARTAL

**Sgôr 2024 - Oren**
Sgôr 2022 - Oren

Mae penodiad y Prif Weinidog benywaidd cyntaf yn nodi cynnydd, ond mae arweinyddiaeth gan fenywod mewn llywodraeth leol wedi dirywio. Er bod deddfwriaeth i wella amrywiaeth ymgeiswyr a datblygiad canllawiau gwirfoddol ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn gamau cadarnhaol, nid yw effaith y mesurau hyn yn debygol o wneud iawn am golli'r Mesur Cwotâu Rhywedd, sy'n rhwystr mawr.

## CYFRIFOLDEBAU GOFALU

**Sgôr 2024 - Coch**
Sgôr 2022 - Coch

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd o ran cefnogi gofalwyr di-dâl a gwella cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol, er bod heriau sylweddol yn parhau yn y ddau faes hyn. Nid yw'r mater hirsefydlog a hollbresennol o seibiant annigonol i ofalwyr di-dâl wedi cael digon o sylw. Mae hygyrchedd gofal plant yn parhau i fod yn broblem fawr, gydag integreiddio cyfyngedig rhwng rhaglenni a darpariaeth yn anghyson ar draws awdurdodau lleol.

## HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG

**Sgôr 2024 - Oren**
Sgôr 2022 - Oren

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 yn gam cadarnhaol o ran hyrwyddo cyflogaeth foesegol a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ar frys i wella'r gefnogaeth i geiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr benywaidd, yn enwedig mewn meysydd fel addysg iaith a thai, er mwyn sicrhau bod Cymru'n ymgorffori'n llawn ei hymrwymiad fel Cenedl Noddfa a thuag at gydsafiad byd-eang.

COMPARISON OF 2022 VS 2024 RESULTS

# CYLLID TEG
SGÔR: COCH

> *"... Mae'r anghydraddoldebau strwythurol hyn yn golygu bod menywod mewn sefyllfa anghyfartal yn economi Cymru a'r DU, gan eu gadael yn fwy agored i effeithiau ansicrwydd economaidd."*
> GRŴP CYLLIDEB MENYWOD CYMRU [13]

### Swyddi a chyflog cyfartal

Mae menywod yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu ac maent yn dominyddu sectorau sy'n draddodiadol ar gyflogau is, fel iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at gyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd a chyflogaeth ran-amser, ansicr. Mae'r heriau hyn hyd yn oed yn fwy amlwg i fenywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol, gan gynnwys menywod lleiafrifoedd ethnig ac anabl, yn ogystal â mamau sengl.

Mae menywod yn profi cyfraddau uwch o anweithgarwch economaidd, gyda 27.4% o fenywod 16-64 oed yn economaidd anweithgar (heb newid ers 2022-23) o gymharu ag 20% o ddynion (i lawr o 21.5% yn yr un cyfnod). Mae'r gwahaniaeth yn arbennig o amlwg i fenywod lleiafrifoedd ethnig, a welodd gynnydd sylweddol mewn anweithgarwch economaidd o 27.9% yn 2022 i 41.8% erbyn hyn. Yn yr un modd, mae 46.3% o fenywod anabl yn anweithgar yn economaidd, i fyny o 45.5%. Mae menywod yn llawer mwy tebygol o weithio'n rhan-amser, gyda 37.6% o fenywod mewn rolau rhan-amser o gymharu â dim ond 12.7% o ddynion. Yn 2022, y cyfrannau oedd 37.4% a 13.6% yn y drefn honno.[14] Ar ben hynny, dim ond 58.5% o fenywod sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol, o gymharu â 68.3% o ddynion, gan dynnu sylw at anghydraddoldebau economaidd parhaus ar draws sawl dimensiwn.[15]

Mae gwahanu ar sail rhywedd ar draws sectorau yn ysgogi'r bwlch cyflog llawn amser, gyda menywod wedi'u canoli mewn swyddi heb eu gwerthfawrogi'n ddigonol a heb eu talu'n ddigonol a hynny'n cyfyngu ar eu potensial i ennill cyflog a datblygu yn eu gyrfa. Nod un o gerrig milltir cenedlaethol Llywodraeth Cymru yw dileu'r bylchau cyflog ar gyfer rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd erbyn 2050.[16] Caiff cynnydd ei fonitro drwy adroddiadau rheolaidd a dadansoddi data, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, ac mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus olrhain ac adrodd ar eu hymdrechion i gau'r bylchau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi, rhwng 2015 a 2023, bod y bwlch cyflog rhywedd wedi gwella, nad yw'r bwlch cyflog anabledd wedi gweld unrhyw newid ac mae'r bwlch cyflog ethnigrwydd wedi dirywio.[17] Mae'r bwlch cyflog rhywedd ar gyfer pob gweithiwr ar hyn o bryd yn 11.8% yng Nghymru, ar ôl gostwng am gyfnod byr yn 2022 cyn codi eto, o gymharu â chyfartaledd y DU o 14.3%.[18] Mae bwlch cyflog ethnigrwydd yn parhau ledled Cymru a'r DU.[19]

---

[13] Ymhell o fod yn rhwyd ddiogelwch hanfodol: Amodoldeb Budddaliadau, Sancsiynau a Menywod yng Nghymru | Grŵp Cyllideb Menywod Cymru

[14] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Ebrill 2023-Mawrth 2024 ac Ebrill 2022-Mawrth 2023

[15] Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol

[16] Llunio Dyfodol Cymru: Y cerrig milltir cenedlaethol cyntaf i Gymru

[17] Llesiant Cymru, 2024: cynnydd tuag at gerrig milltir cenedlaethol

[18] Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), 2022-23, Daearyddiaeth Gwaith, Tabl 7.12

[19] Bylchau cyflog ethnigrwydd, y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | DS Mae'r bwlch cyflog ethnigrwydd yn dangos y gwahaniaeth yng nghyfradd gyfartalog yr awr rhwng gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Gwyn mewn sefydliad, a fynegir fel canran o enillion cyfartalog gweithwyr Gwyn. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r un fethodoleg gyfrifo ag ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhywedd.

Cafodd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2023.[20] Er bod y Ddeddf yn pwysleisio gwaith teg, caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol a lles, nid yw'n sôn yn benodol am fylchau cyflog. Mae cyfle i Lywodraeth Cymru ddefnyddio caffael cyhoeddus i gymell busnesau i fabwysiadu arferion cydraddoldeb rhywedd, a fyddai'n mynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol a lleihau'r bwlch cyflog rhywedd. Er enghraifft, gallai penderfyniadau contractio ystyried ymdrechion sefydliad i hyrwyddo amrywiaeth rhywedd a darparu cyflog teg.

Argymhellodd Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022 fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella adrodd ar y bwlch cyflog rhywedd.[21] Mae rhanddeiliaid wedi galw dro ar ôl tro am fwy o dryloywder o ran adrodd ar y bylchau cyflog o ran rhywedd, ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig eraill, ochr yn ochr â mwy o gynrychiolaeth mewn swyddi uwch. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau ychwanegol o ran adrodd ar y bwlch cyflogau, mae Llywodraeth Lafur y DU wedi ymrwymo i symud gwelliannau yn eu blaen, gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi cynlluniau gweithredu ac adrodd gorfodol ar y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd ochr yn ochr ag adroddiadau GPG, a fyddai'n ymestyn i Gymru.[22]

Mae strategaeth gweithio'n ddoethach Llywodraeth Cymru 2022 yn gosod targed o weld 30% o boblogaeth Cymru yn gweithio o bell yn rheolaidd.[23] Er bod hyn yn ymrwymiad cadarnhaol, mae diffyg data cyhoeddedig yn amharu ar olrhain cynnydd a'r effaith ar fenywod. Ar ben hynny, mae ansicrwydd ynghylch uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio o bell yn y dyfodol.[24] Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC) eu hadroddiad ar weithio ystwyth a hyblyg, sy'n atgyfnerthu gwersi a ddysgwyd o'r pandemig ac yn amlygu meysydd o arfer da yn y sector cyhoeddus a thu hwnt.[25]

Mae'r ffaith bod colli capasiti ac adnoddau wrth fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb ariannol menywod yn destun pryder. Mae diwedd Chwarae Teg, eiriolwr allweddol dros rymuso menywod yn economaidd, ochr yn ochr â thoriadau mynych i gyllidebau cydraddoldeb, yn cynrychioli rhwystr sylweddol ac yn tynnu sylw at faterion ehangach o ran cyllido. Canfu ymchwil gan Sefydliad Rosa mai dim ond 1.8% o gyfanswm grantiau elusennol y DU yn 2021 a gyfeiriwyd at weithgareddau sy'n canolbwyntio ar fenywod a merched.[26]

## Tlodi a rhywedd

Fel y cydnabuwyd gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â chyllideb ddrafft 2024/25, mae anghydraddoldebau cyflogaeth, yr argyfwng costau byw ac effeithiau tlodi yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd â menywod.[27] Rhieni sengl, y

[20] Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
[21] Cerdyn Sgorio Ffeministaidd | Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
[22] Closing the Gender Pay Gap "Once and for All": Labour's Proposed Reforms to GPG Reporting in the UK | OHRH
[23] Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru
[24] Welsh Government First Minister says working in office good for 'workforce and mental health' | North Wales Live
[25] Adroddiad Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC): gweithio'n hyblyg ac yn ystwyth
[26] Mapping the UK Women and Girls Sector and its Funding
[27] Cyllideb Ddrafft 2024 i 25 Llywodraeth Cymru

mwyafrif helaeth ohonynt yn fenywod, sy'n wynebu'r risg uchaf allan o bob math o aelwyd, gyda bron un o bob tri yn profi tlodi incwm cymharol.[28] Canfu arolwg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod bod yn 'bryderus iawn' am gostau byw cynyddol yn gysylltiedig â nodweddion fel bod yn fenyw, cael plant yn y cartref a bod o grwpiau ethnig heblaw gwyn.[29]

Sefydlwyd y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn 2013, ac o 2020 i 2023 fe'i hymestynnwyd i gynnwys hawliadau am resymau yn ymwneud â COVID-19.[30] Buddsoddodd Llywodraeth Cymru hefyd yng Nghynllun Cymorth Tanwydd Cymru a Chronfa Wres y Sefydliad Banc Tanwydd, gan ddarparu taliadau a thalebau arian untro i atal tlodi tanwydd. Mae'r mecanweithiau cymorth hyn wedi helpu cannoedd o filoedd o bobl ledled Cymru, gan atal caledi rhag gwaethygu. Gall cynlluniau fel rhaglen Bwndel Babi, a dreialwyd yn 2020/21 ac sydd ar hyn o bryd o dan ymarfer cwmpasu yn 2024, ddarparu cymorth ymarferol i rieni sydd ei angen fwyaf.[31]

Fodd bynnag, mae'r argyfwng costau byw sydd wedi dilyn mor fuan ar ôl y pandemig yn golygu bod y galw am y gefnogaeth hon wedi tyfu yn hytrach na lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nododd Cyngor ar Bopeth gynnydd sylweddol yn nifer y bobl y gwnaethon nhw eu helpu rhwng 2023 a 2024 yng Nghymru, cynnydd o 22% ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a chynnydd o 40% ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol.[32] Mae tuedd bryderus wedi dod i'r amlwg o 'gleientiaid sy'n dychwelyd' sef rhai sydd angen cael gafael ar arian brys nid yn unig yn achlysurol oherwydd argyfwng untro, ond yn fwy rheolaidd gan nad yw eu hincwm yn ddigonol i fyw arno. Wrth i Lywodraethau ledled y DU wynebu penderfyniadau cyllidebol anodd, mae dyfodol DAF a chronfeydd brys eraill yn ansicr.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi plant, sy'n effeithio ar 30% o blant yng Nghymru - y gyfradd uchaf yn y DU.[33] Ym mis Ionawr 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant Cymru, yr unig fenter wrthdlodi o'i bath yng Nghymru.[34] Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar gynyddu incwm teuluoedd a lleihau costau cartrefi, nid yw'n mynd i'r afael yn llawn ag effeithiau tlodi ar rywedd.

*"O ystyried y sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd, a yw'r system gymorth argyfwng gyfredol yn dal i fod yn 'addas i'r diben'?"*

CYNGOR AR BOPETH [36]

Mae'r argyfwng costau byw hefyd wedi effeithio ar wasanaethau'r trydydd sector sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd. Dywedodd mwy na hanner y sefydliadau cymunedol yng Nghymru bod y galw ar eu gwasanaethau wedi cynyddu, tra bod eu hincwm wedi gostwng.[35] Mae

28 Stats Cymru, HBAI, 2019: Pobl mewn tlodi cymharol yn ôl math o deulu 2019-20 i 2021-22 a 2020-21 i 2022-23
29 Costau byw cynyddol ac iechyd a llesiant yng Nghymru: arolwg cenedlaethol
30 Y Gronfa cymorth dewisol: adroddiad ansawdd
31 Datganiad Ysgrifenedig: Rhaglen Babi Bwndel – diweddariad ar gynnydd (11 Mawrth 2024)
32 Cyrraedd pwynt argyfwng: Y stori yng Nghymru | Cyngor ar Bopeth
33 Tlodi Plant - Comisiynydd Plant Cymru
34 Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024
35 Ymatebion Cymunedau i'r Argyfwng Costau Byw | BCT
36 Cyrraedd pwynt argyfwng: Y stori yng Nghymru | Cyngor ar Bopeth

hyn yn golygu nad oes gan sefydliadau'r adnoddau a'r gallu sydd eu hangen i gefnogi pobl sy'n wynebu heriau cymhleth.

Mae pryderon yn parhau ynghylch mynediad menywod at incwm annibynnol, yn enwedig gyda thaliadau budd-dal yn cael eu gwneud ar lefel yr aelwyd. Mae diffyg data wedi'i ddadgyfuno yn cymhlethu ymdrechion ymhellach i werthuso pa mor effeithiol y mae'r mesurau hyn yn cefnogi menywod.

### Cyllidebau a threthi

Mae costau cynyddol a phwysau digynsail ar gyllidebau wedi effeithio'n sylweddol ar feysydd sy'n hanfodol i fywydau menywod yng Nghymru. Mae diffygion ariannol awdurdodau lleol i bob pwrpas yn cynrychioli toriadau tymor real i wasanaethau cyhoeddus, gan effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae menywod yn fwy tebygol o weithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, o ddibynnu ar wasanaethau cyhoeddus, ac o ddod yn ddarparwyr dewis olaf pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tynnu'n ôl—'ergyd driphlyg' sy'n annhebygol o wella o dan Lywodraeth newydd y DU.[37] Gwnaeth Cyllideb 2024/25 Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ddiogelu gwasanaethau allweddol, gan gynnwys gwasanaethau rheng flaen y GIG a'r setliad craidd ar gyfer llywodraeth leol, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.[38] Mae hyn i'w groesawu, ond mae'n peri pryder efallai na fydd y lefelau cymorth cyfredol yn cadw i fyny â'r costau cynyddol y mae darparwyr yn eu hwynebu.

> *"Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywedd yng Nghymru, mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb ac yn ariannu'n ddigonol y gwasanaethau y mae menywod yn dibynnu arnynt."*
> GRŴP CYLLIDEB MENYWOD CYMRU

Yn 2023, gwnaed toriadau mynych i gyllidebau sy'n cefnogi gweithgareddau'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, yn ogystal â'r gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddargyfeirio £16.1 miliwn o ddarpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn ystod adolygiad gwariant canol blwyddyn mis Hydref 2023, ac yna toriad arall o £11.2 miliwn ar gyfer cyllideb 2024-25.[39]

Gwelwyd lleihad o £7 miliwn yn y Gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol ym mis Hydref 2023, gyda 60% o'r arbedion hyn - £4.2 miliwn - yn dod o'r gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol, er mai dim ond 13% o'r cyfanswm ydyw. Gwelodd y gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol, sy'n ariannu ystod o raglenni cydraddoldeb a hawliau dynol a sefydliadau cydraddoldeb trydydd sector, doriad o £1.6 miliwn yng nghyllideb 2024-25 o gyllideb 2023/24.[40] Gwaethygodd toriadau cyllid Llywodraeth Cymru'r heriau a wynebwyd eisoes gan y trydydd sector, a oedd yn ymdrechu i fynd i'r afael â cholledion ariannol oherwydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi rhwystro cynnydd ar gydraddoldeb rhywedd yng Nghymru yn sylweddol, fel y dangoswyd wrth i Chwarae Teg gau.

[37] Effaith ryweddol yr argyfwng costau byw ar wasanaethau cyhoeddus | Grŵp Cyllideb Menywod
[38] Cyllideb Ddrafft 2024 i 25 Llywodraeth Cymru
[39] Diagram rhyngweithiol i archwilio Cyllideb Derfynol 2024-25
[40] Diagram rhyngweithiol i archwilio Cyllideb Derfynol 2024-25

Mae cyllidebu ar sail rhywedd, sy'n ystyried gwahaniaethau rhywedd a chroestoriadol mewn penderfyniadau cyllidebol a pholisi, yn hanfodol i fynd i'r afael â chanlyniadau anghyfartal. Mae angen defnyddio data rhywedd a chroestoriadol i ddeall y gwahaniaethau hyn. Mae'n galonogol bod prif ffrydio cydraddoldeb yn egwyddor yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Er bod y gwaith parhaus o dreialu cyllidebu ar sail rhywedd a chyhoeddi gwerthusiad peilot Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) yn gamau cadarnhaol, rydym yn dal i aros am werthusiadau o'r ddau beilot arall - Gwarant i Bobl Ifanc a theithio llesol e-feiciau.[41] Bydd y gwersi hyn yn hanfodol ar gyfer gweithredu ehangach, ac mae'n bwysig datblygu cynlluniau i brif ffrydio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru i wella prosesau llunio polisïau a dyrannu adnoddau. Mae'n galonogol bod canllawiau bellach ar gael i swyddogion a llunwyr polisi Llywodraeth Cymru ar ddeall.[42]

Yn dilyn dau gyfnod ymgynghori, ni ddisgwylir camau i ddiwygio'r dreth gyngor cyn 2028. Mae'r ffaith ei fod wedi'i gynnwys ym Mil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) yn galonogol, ond mae'r oedi yn siomedig. Yn wahanol i'r DU neu'r Alban, ni all Cymru addasu bandiau treth incwm na chreu rhai newydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i eiriol dros ddatganoli pwerau trethu ymhellach er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd a'i galluogi i ymateb yn well i anghenion trethdalwyr Cymru. Yn absenoldeb mwy o bwerau i addasu treth incwm, mae diwygio'r dreth gyngor yn parhau i fod yn ysgogiad allweddol i wneud trethiant yn fwy blaengar, sy'n arbennig o bwysig i fenywod oherwydd yr anghydraddoldebau a amlinellwyd.

## Cynnydd ers Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022

Bu cynnydd cyfyngedig iawn, gyda llawer o faterion a amlinellwyd yng Ngherdyn Sgorio 2022 yn parhau a rhai hyd yn oed yn gwaethygu. Mae'r bwlch cyflog rhywedd ond wedi gwella ychydig, ac yn 11.8% yng Ngherdyn Sgorio 2024 ar ôl gostwng am gyfnod byr yn 2022. Ar ben hynny, fel y dengys ffigyrau, mae rhwystrau sy'n atal menywod rhag cyfranogi mewn cyflogaeth am dâl a dilyniant gyrfa yn parhau. Mae toriadau i gyllid a gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys y Gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol a gofal plant, yn tynnu sylw at y ffaith bryderus fod yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi grymuso menywod yn economaidd wedi llithro'n ôl. Mae'r heriau parhaus hyn yn tanlinellu'r angen am weithredu mwy cadarn a strategaethau cynhwysfawr i sicrhau cynnydd ystyrlon tuag at gydraddoldeb ariannol i bob menyw yng Nghymru. Mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gyllidebu ar sail rhywedd yn galonogol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd tuag at weithredu ehangach wedi bod yn araf ac mae angen cyflymu hyn ar frys i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb ariannol trwy ddefnyddio data croestoriadol i lywio penderfyniadau cyllidebu a dyrannu adnoddau.

[41] Y Warant Pobl Ifanc; Lansio cynllun peilot e-Feiciau yng Nghymru
[42] Cyfarfod Y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb:  Mawrth 2024

# ARGYMHELLION

- **Cymryd camau pendant i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y bwlch cyflog rhywedd, gan ganolbwyntio ar anghydraddoldebau rhywedd strwythurol, gan gynnwys gwahanu galwedigaethol, a gwahaniaethau ar sail rhywedd mewn cyfrifoldebau gofal.**
- **Ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol, a gorfodi pob corff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol adrodd ar ei fylchau cyflog rhywedd, a hynny ochr yn ochr â chyhoeddi bylchau cyflog o ran ethnigrwydd, anabledd ac LHDTC, a mynnu bod camau unioni yn digwydd yn dilyn yr adrodd.**
- **Sicrhau bod effaith tlodi ar rywedd yn cael ei chydnabod a bod lens ryweddol gref yn cael ei defnyddio ar draws yr holl strategaethau a chamau gweithredu sy'n ymwneud â thlodi.**
- **Adrodd yn rheolaidd yn erbyn dangosyddion yn strategaeth Gweithio'n Ddoethach 2022 drwy weithredu lens rhywedd i ddeall effaith gweithio o bell a gweithio ystwyth ar y gweithlu.**
- **Bwrw ymlaen â gweithredu'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd yn llawn a chyflwyno cyllidebu ar sail rhywedd a phrif ffrydio rhywedd ar draws y llywodraeth.**
- **Datblygu fframwaith i fonitro a dadansoddi effaith unrhyw benderfyniadau ynghylch cyllidebau a threthi ar bob menyw yng Nghymru, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a ddarperir gan yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i ddeall lefelau anghydraddoldeb sy'n croestorri ac yn gwaethygu.**
- **Parhau i eirioli dros ddatganoli pwerau trethu ymhellach i Gymru er mwyn cyflwyno system decach o ran y Dreth Gyngor.**

# HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG

SGÔR: OREN

## Cydsafiad byd-eang

Mae cydsafiad byd-eang yng nghyd-destun y Cerdyn Sgorio hwn yn cwmpasu dimensiwn rhyngwladol, gan adlewyrchu polisïau Cymru tuag at fenywod ledled y byd, ac ymrwymiad domestig i gefnogi menywod sydd wedi ceisio lloches yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwyslais ar gyfrifoldeb byd-eang, gan annog Llywodraeth Cymru i weithredu gyda buddiannau dinasyddion byd-eang mewn golwg.[43] Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau Cymru yn cyfrannu at ddyfodol teg a chynaliadwy i bawb.[44]

Lansiwyd strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru yn 2020 ac mae disgwyl iddi ddod i ben yn 2025.[45] Mae ymgynghoriad yn agored gan y Senedd ar hyn o bryd ar effaith y strategaeth a dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol y tu hwnt i 2025.[46] Ers Cerdyn Sgorio 2022, mae Cynllun Grant Cymru ac Affrica wedi ariannu sawl prosiect sy'n cefnogi hawliau a bywoliaeth menywod yn Uganda a Lesotho.[47]

Er bod Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn hyrwyddo ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn caffael, nid oes ffocws penodol ar hawliau menywod na chydsafiad byd-eang â menywod. Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yn cynnwys ymrwymiadau i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a hyrwyddo cyflogaeth foesegol, gyda modiwlau hyfforddi ac arweiniad ategol ar-lein. Wrth barhau i weithredu'r mesurau hyn, rhaid rhannu cynnydd â rhanddeiliaid mewn ffordd dryloyw, amserol a hygyrch.

Mae'r argyfwng yn Gaza a'r Tiriogaethau Palesteinaidd dan Feddiannaeth, sydd bellach yn lledaenu trwy wledydd eraill y Dwyrain Canol fel Libanus a Syria, wedi parhau i fod yn bryder allweddol i'r gymuned ryngwladol dros y flwyddyn ddiwethaf.[48] Mae'r effaith ar fenywod a merched wedi bod yn ddifrifol, yn enwedig o ran diogelwch bwyd, amddiffyniad a lloches.[49] Mae heriau sylweddol hefyd oherwydd diffyg mynediad at gyfleusterau dŵr, glanweithdra a hylendid digonol.[50] Arweiniodd dadl yn y Senedd ym mis Tachwedd 2023 at gymeradwyo cadoediad i ddigwydd ar unwaith.[51] Ym mis Hydref 2024 lansiwyd Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol gan Bwyllgor Argyfwng Trychinebau Cymru, a rhoddodd Llywodraeth Cymru £100,000 iddi.[52]

[43] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[44] Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang
[45] Strategaeth Ryngwladol
[46] Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru
[47] Cyllid o Gymru yn grymuso menywod yn Affrica | CGGC
[48] Israel a Gaza yn y Senedd: y stori hyd yma
[49] Gender Alert: The Gendered Impact of the Crisis in Gaza | UN Women Arab States
[50] Scarcity and Fear: A Gender Analysis of the Impact of the War in Gaza on Vital Services Essential to Women's and Girls' Health, Safety, and Dignity - Water, Sanitation and Hygiene (WASH)
[51] Dadl Plaid Cymru | Gwrthdaro yn Israel a Gaza
[52] Middle East Humanitarian Appeal; DEC Cymru yn lansio Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol

## Cenedl Noddfa

Er bod mewnfudo yn fater a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i fod yn Genedl Noddfa, gydag amryw fentrau i gefnogi pobl sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid o wledydd fel Syria, Afghanistan ac Wcráin.[53] Mae'n werth nodi bod yr ymateb cyffredinol i ffoaduriaid Wcrain yn fwy cadarnhaol nag i'r rhai o rannau eraill o'r byd.[54] Er y mabwysiadwyd 'ymateb arbennig Cymreig' yn 2021 i gefnogi ffoaduriaid o Afghanistan,[55] roedd cynllun Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n ffoi o Wcráin.[56] Mae'n bryd adolygu ac adnewyddu Cynllun Cenedl Noddfa 2019, gydag ymrwymiadau i wneud hynny yn 2023.[57]

Mae Fframwaith Integreiddio Mudwyr 2023 yn gam cadarnhaol tuag at wneud Cymru'n lle diogel a chroesawgar i fudwyr, ond mae'n hanfodol bod y data a gesglir yn arwain at newid ystyrlon.[58] Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y cynnydd diweddar mewn gwrthdaro byd-eang. Dylid cydnabod yn benodol hefyd y rôl y gall rhywedd ei chwarae mewn canlyniadau a phrofiadau amrywiol, yn ogystal ag ymagweddau penodol ar sail rhywedd i adlewyrchu hyn.

Er bod gwelliannau wedi'u sicrhau, yn enwedig mewn cyllid ar gyfer goroeswyr VAWDASV sy'n fudwyr neu rai nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus (NRPF), mae angen mwy o waith i wneud y gefnogaeth hon yn ddigonol ac yn gynaliadwy.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022 ac mae'n cynnwys gweithred sydd â'r nod o leihau'r cam-drin domestig neu gam-fanteisio a brofir gan fudwyr. Fodd bynnag, canfu ymchwiliad gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd fod gweithredu'r cynllun gweithredu wedi bod yn anghyson a bod angen camau gorfodi cryfach, gwell cydlynu ymhlith darparwyr gwasanaethau a threfniadau casglu data mwy cynhwysfawr.[59]

Her hanfodol o hyd yw'r amser cyfyngedig sydd gan bobl sy'n ceisio lloches i symud ymlaen o lety a ddarperir gan y Swyddfa Gartref unwaith y rhoddir Caniatâd i Aros iddynt. Ar bapur, rhoddir 28 diwrnod iddynt, ond mewn gwirionedd gall fod yn llai nag wythnos. Pwysleisiodd rhanddeiliaid ar draws y sector y mater hwn. Mae'r estyniad arfaethedig o ran diwygio deddfwriaeth ddigartrefedd Cymru yn gwrthgyferbynnu'n fawr â'r amserlen llawer byrrach i bobl sy'n ceisio noddfa; mae'r anghysondeb hwn yn eu gwthio tuag at ansicrwydd o ran tai a digartrefedd. Gall salwch meddwl waethygu hefyd, yn enwedig i fenywod sy'n ceisio noddfa sydd wedi profi trawma cymhleth a chroestoriadol. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i alinio polisïau'r DU â'i gweledigaeth o fod yn Genedl Noddfa, yn enwedig gyda Llywodraeth newydd ar waith yn y DU.[60]

[53] Examining the Welsh political response to the Ukrainian refugee crisis
[54] Media portrayal of Ukrainian refugees was unusually positive | BPS
[55] Cenedl Noddfa: Cymru ac Afghanistan
[56] Cymru a'r rhyfel yn Wcráin: ddwy flynedd yn ddiweddarach
[57] Cyfarfod Llawn 13/06/2023 | Senedd Cymru
[58] Fframwaith Integreiddio Mudwyr
[59] Gweithredu, nid geiriau: creu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030
[60] Joint Shadow Report to CERD | Race Equality First, Mehefin 2024

Daeth y cynllun Tocyn Croeso, a oedd ar agor i ffoaduriaid ledled Cymru, i ben ym mis Mawrth 2024 gydag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sefydlu cyfnod newydd sy'n gynaliadwy ac yn addas i'r diben.[61] Mae angen cynnydd yn fuan i sicrhau bod pawb sy'n ceisio noddfa, waeth beth fo'u hil, yn gallu cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.[62]

Ym mis Gorffennaf 2023, amlygodd Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru rwystrau sylweddol i gyfranogiad, yn enwedig diffyg cyfleusterau creche a gofal plant. Gwnaed argymhellion ynghylch cyllid, seilwaith, dylunio cwrs.[63] Gan fod rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu wrth sicrhau ESOL yn hysbys ers dros ddegawd, mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r rhain heb oedi pellach.

Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â phrydau ysgol am ddim i blant teuluoedd NRPF, gan amcangyfrif bod tua 1,500 o blant ysgolion uwchradd wedi'u cyfyngu rhag cael mynediad i'r prydau hyn oherwydd canllawiau aneglur. Maen nhw'n argymell bod cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael ei ymestyn yn barhaol i bob plentyn sydd â NRPF yng Nghymru, gan nad yw'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim yn gyffredinol wedi mynd i'r afael â'r mater eto.[64]

Mae angen deall profiadau amrywiol pobl sy'n ceisio noddfa yn well, yn enwedig gan fod adsefydlu wedi ehangu i bob un o'r 22 awdurdod lleol. Nid oes gan lawer o awdurdodau lleol hyfforddiant ac adnoddau, ac mae hynny'n tynnu sylw at bwysigrwydd rhannu arferion gorau a mynd i'r afael â heriau mewn ardaloedd gwledig. Mae angen data cywir i gasglu'r profiadau hyn a hysbysu gwasanaethau cyhoeddus a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn well.

## Cyfiawnder hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau ymylol, pobl lleiafrifoedd ethnig a menywod, gan ei wneud yn fater cyfiawnder gyda dimensiynau yn ymwneud â rhywedd, hil a daearyddiaeth. Mae'r Mynegai Risg Hinsawdd Fyd-eang yn amlygu mai'r gwledydd sydd fwyaf agored i niwed yn sgil newid yn yr hinsawdd yn aml yw'r rhai sy'n cyfrannu lleiaf at allyriadau byd-eang.

Mae Cymru'n genedl fach, ond mae ei photensial i ddylanwadu ar weithredu hinsawdd fyd-eang yn sylweddol. Mae'n rhaid i Gymru bontio'n deg ac ar frys economi sero-net, gan ddilyn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n pwysleisio cynaliadwyedd hirdymor a dull sy'n gyfrifol yn fyd-eang.[65]

Mae Cymru wedi cymryd camau sylweddol o ran gweithredu dros yr hinsawdd, gan sicrhau gostyngiad o 28% mewn allyriadau o lefelau 1990 a llwyddo i wireddu ei Chyllideb Garbon gyntaf (2016-2020), er bod mwyafrif y gostyngiadau yn ymwneud â

[61] Datganiad Ysgrifenedig: Tocyn Croeso, Mawrth 2024
[62] Cardiff: 'Bychanu' ffoadur wrth geisio teithio ar fysus am ddim | Cymru Fyw BBC
[63] Adolygiad o bolisi Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru: crynodeb gweithredol
[64] Prydau Ysgol am Ddim a heb hawl i gyllid cyhoeddus yng Nghymru | Sefydliad Bevan, 2024
[65] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

gweithredu ar lefel Llywodraeth y DU.[66] Yn 2019, senedd Cymru oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd.[67] Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gyrraedd sero net erbyn 2050.[68] Fodd bynnag, roedd gan y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru nod mwy uchelgeisiol o gyrraedd sero net erbyn 2035, yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd.[69] I archwilio hyn, sefydlwyd Grŵp Her Sero Net 2035 Cymru[70] ac fe gyhoeddodd adroddiad ym mis Medi 2024, gan eiriol dros darged 2035 er gwaethaf diwedd y Cytundeb Cydweithio.[71] Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n swyddogol i darged 2035, maen nhw wedi nodi y byddan nhw'n ystyried argymhellion y grŵp yn ofalus wrth gynnal nod 2050.[72]

Mae cynnig Grŵp Her Sero Net 2035 Cymru yn gam hollbwysig i Gymru. Yn ogystal, mae mabwysiadu fframwaith Ras i Sero y Cenhedloedd Unedig a chefnogi'r llywodraethau lleol sy'n ymuno â'r rhwydwaith yn cynnig cyfle hollbwysig i Gymru grynhoi ei hymdrechion hinsawdd ac arwain y ffordd fel y genedl Ras i Sero gyntaf.[73] Bydd methu â chymryd camau brys a pharhaus ar newid yn yr hinsawdd yn arwain at golli cyfleoedd ar gyfer llesiant Cymru, mwy o amlygiad i risgiau hinsawdd a phontio mwy costus.[74]

Fel y nodwyd yng Ngherdyn Sgorio Ffeministaidd 2022, nid yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 na Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2021 yn cydnabod yn benodol newid yn yr hinsawdd fel mater hawliau dynol neu hawliau menywod, gan golli'r cyfle i fabwysiadu dull cyfiawnder cymdeithasol. Bydd defnyddio lens ryweddol wrth lunio polisi economaidd a chymdeithasol yn helpu Cymru i wynebu'r heriau a ddaw yn sgil yr argyfwng hinsawdd.[75]

> *"Mae anghydraddoldebau iechyd yn golygu nad yw risgiau iechyd sy'n deillio o newid hinsawdd wedi'u dosbarthu'n gyfartal, gan fygwth y nodau ar gyfer Cymru iachach a mwy cyfartal."*
> PWYLLGOR NEWID HINSAWDD [77]

Yn 2024, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei Fframwaith Pontio Cyfiawn, gan nodi sut mae'n bwriadu i Gymru symud i sero net mewn ffordd deg.[76] Mae'n hanfodol bod y pontio yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol yn hytrach na'u gwaethygu, ac yn atal rhai newydd rhag ymddangos. Mae diffyg ffocws amlwg ar swyddi gofal yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau sero net, er bod y sector hwn yn ganolog i lesiant cymdeithasol ac economaidd, ac eisoes yn garbon isel gyda gweithlu

[66] Adroddiad Cynnydd Lleihau allyriadau yng Nghymru, y Pwyllgor Newid Hinsawdd.
[67] Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd.
[68] Sero Net Cymru
[69] Adroddiad Cynnydd: Lleihau allyriadau yng Nghymru - y Pwyllgor Newid Hinsawdd
[70] Grŵp Her Sero Net 2035 Cymru
[71] Llwybrau at Gymru Lewyrchus a Gwydn mewn Dyfodol sy'n Newid
[72] Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Adroddiadau Terfynol Grŵp Her Sero Net 2035 Cymru
[73] Ras i Sero; Ras i Sero Cymru
[74] Llwybrau at Gymru Lewyrchus a Gwydn mewn Dyfodol sy'n Newid | Cymru Sero Net 2035 Grŵp Her
[75] Cymru sy'n Gofalu am Bobl a'r Blaned | IWA ac Oxfam, Gorffennaf 2024
[76] Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Fframwaith Pontio Cyfiawn
[77] Addasu i newid hinsawdd: Cynnydd yng Nghymru | Pwyllgor Newid Hinsawdd

benywaidd yn bennaf.[78] Roedd ehangu'r diffiniad o sgiliau gwyrdd i gynnwys proffesiynau gofal yn argymhelliad allweddol gan Banel Tystiolaeth sy'n benodol i Gymru i sicrhau bod manteision y pontio i sero-net yn ymestyn y tu hwnt i alwedigaethau traddodiadol sy'n cael eu dominyddu gan ddynion. [79]

## Cynnydd ers Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022

> *"Dylai pontio cyfiawn i economi sero-net a gwyrdd fod wrth wraidd polisïau'r llywodraethau ynglŷn â'r argyfwng hinsawdd"*
> OXFAM CYMRU [80]

Un elfen o gynnydd arwyddocaol yw gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, sy'n pwysleisio cyflogaeth foesegol ac yn anelu at fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Mae hyn yn gam pwysig ymlaen wrth alinio arferion caffael ag egwyddorion cydsafiad byd-eang. Yn ogystal, mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Fframwaith Integreiddio Mudwyr 2023 yn nodi newid tuag at ddull mwy strwythuredig a chefnogol o ymdrin â cheiswyr lloches a ffoaduriaid, yn enwedig wrth wella mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymrwymiad blaenorol i fod yn Genedl Noddfa, a oedd, er yn gymeradwy, yn wynebu heriau ymarferol o ran ei wireddu. Fodd bynnag, mae'r ymrwymiad i wella sefyllfa ceiswyr lloches ac ymfudwyr sy'n fenywod yn parhau i fod yn anghyflawn, gan gynnwys o ran tai ac addysg iaith. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd safiad cryfach ar hawliau a diogelwch menywod, yn ogystal ag ar yr argyfyngau dyngarol a hinsawdd byd-eang.

[78] Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau a Cynllun gweithredu sgiliau sero net; A Care-Led Recovery from Coronavirus - Women's Budget Group, 2, 2020

[79] An Equal and Just Transition to Net Zero – Mainstreaming and Just Transition Evidence Panel, 2023

[80] Response to the Economy, Trade and Rural Affairs Committee consultation into the Green Economy | Oxfam Cymru - March 2024

# ARGYMHELLION

- **Ailsefydlu'r Cynllun Croeso ar frys, gan sicrhau gweithrediad effeithiol gyda phartneriaid.**
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ymestyn y cyfnod symud ymlaen o lety lloches y tu hwnt i 28 diwrnod i atal digartrefedd a cham-fanteisio ymhlith menywod a phlant.**
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU ac asiantaethau partner i sicrhau trefniadau casglu data cynhwysol i gynrychioli'n gywir y menywod a'r plant sy'n chwilio am noddfa yn setiau data'r DU.**
- **Bwrw ymlaen o'r diwedd ag adolygu ac adnewyddu Cynllun Cenedl Noddfa, gan gynnwys dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU i gyd-fynd ag ymrwymiad a gwerthoedd Cymru.**
- **Mynd i'r afael â'r rhwystrau i fenywod sy'n mynychu dosbarthiadau ESOL, fel diffyg cyfleusterau gofal plant a datblygu camau gweithredu.**
- **Sicrhau bod y Fframwaith Pontio Teg tuag at Sero Net yn cynnwys buddsoddiadau mewn sectorau carbon-isel y mae menywod yn eu dominyddu, megis gofal ac addysg fel elfennau hanfodol economi llesiant.**
- **Fel cynrychiolydd cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, ymrwymo'r holl adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael ag argyfyngau dyngarol a hinsawdd byd-eang trwy gyllid ac eiriolaeth wleidyddol weithredol ar gyfer atebion diplomyddol.**

# CYFRIFOLDEBAU GOFALU

SGÔR: COCH

### Gofal di-dâl

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae 10.5% o boblogaeth Cymru yn ofalwyr di-dâl. Mae bron i 60% yn fenywod a bron i draean yn anabl eu hunain.[81] Mae grwpiau ethnig lleiafrifol fel pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn cael eu gorgynrychioli ymhlith gofalwyr anffurfiol, a dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod pobl o rai grwpiau ethnig lleiafrifol a chefndiroedd diwylliannol yn llai tebygol o gael cymorth gofal a ariennir yn gyhoeddus.[82] Mae dimensiwn economaidd-gymdeithasol hefyd: mae 11.5% o bobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn darparu gofal di-dâl, o gymharu â 9.7% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.[83]

Mae'r straen ariannol ar ofalwyr ledled Cymru yn amlwg, gyda bron i un o bob pedwar (23%) yn torri nôl ar hanfodion fel bwyd a gwres, a mwy na thraean (34%) yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae mwy na hanner (53%) angen mwy o gymorth ariannol, tra bod 64% yn ei chael hi'n anoddach ymdopi yn ariannol oherwydd y cynnydd mewn costau byw.[84] Ymhellach, dywedodd 44% o ofalwyr di-dâl presennol neu gyn-ofalwyr di-dâl fod gofalu wedi cael effaith negyddol ar eu cyllid a'u cynilion, tra dywedodd 45% fod gofalu di-dâl yn cael 'rhywfaint' o effaith negyddol neu effaith negyddol 'fawr' ar eu swydd a'u gallu i weithio.[85] Mae hyn yn ychwanegu dimensiwn pellach at gyfranogiad anghymesur o isel menywod mewn cyflogaeth.

Mae'r effaith ar iechyd a lles gofalwyr yng Nghymru yn andwyol. Dywedodd dros chwarter (28%) fod eu hiechyd meddwl yn wael neu'n wael iawn, dywedodd 52% bod eu hiechyd corfforol wedi dioddef, gyda 23% yn priodoli anafiadau i'w dyletswyddau gofalu.[86] Mae'r diffyg seibiant i ofalwyr yn fater dybryd, gyda 56% o ofalwyr yn nodi y byddai cael seibiant rheolaidd o'u dyletswyddau gofalu yn heriol yn y flwyddyn i ddod, a 41% yn mynegi angen am fwy o seibiannau neu amser i ffwrdd o'u rolau gofalu.[87] Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu'r angen brys am well systemau cymorth ac adnoddau i ofalwyr er mwyn lleddfu'r pwysau ariannol, corfforol a meddyliol sydd arnynt.

Mae Cynllun Seibiant Byr Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £9m rhwng 2022 a 2025, gyda'r cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.[88] Mae'r capasiti ychwanegol hwn i'w groesawu a'r nod yw cefnogi tua 30,000 o ofalwyr di-dâl, er bod angen y cymorth hwn ar fwy na 300,000 o bobl.[89]

[81] Gofal di-dâl, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021; Brîff Polisi: Nodweddion Gwarchodedig a gofal di-dâl yng Nghymru | Carers Wales, 2023
[82] Gofal di-dâl a nodweddion gwarchodedig, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021
[83] Gofalwyr di-dâl yng Nghymru a mynediad at gefnogaeth ariannol a statudol | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
[84] State of Caring 2023: The impact of caring on finances in Wales | Carers UK
[85] Carers Week Report 2024 | Carers UK
[86] State of Caring 2023: The impact of caring on finances in Wales | Carers UK
[87] State of Caring 2023: The impact of caring on finances in Wales | Carers UK
[88] Cynllun Seibiannau Byr Cymru
[89] Unpaid care by age, sex and deprivation, England and Wales: Census 2021

Er bod y tarfu trwm ar wasanaethau i ofalwyr di-dâl a achoswyd gan bandemig Covid-19 wedi darfod, nid yw rhai gwasanaethau wedi'u hadfer i'w lefelau cyn y pandemig. Mae awdurdodau lleol yn cael eu hymestyn i'r pen oherwydd toriadau yn y gyllideb, costau byw a darpariaeth gwasanaethau a phwysau cynyddol o fewn y system gofal cymdeithasol, ac mae pob un ohonynt o'r elfennau hyn yn amharu ar gynnydd. Lle na all gwasanaethau cyhoeddus ddiwallu anghenion, rhaid i ofalwyr di-dâl lenwi'r bylchau. Mae ymgyrchwyr a rhanddeiliaid yn parhau i alw am gymorth ariannol wedi'i dargedu a digon o seibiant i ofalwyr, yn ogystal â chydweithio a chyd-gynhyrchu rhwng llunwyr polisi a gofalwyr.[90]

> *"Mae gofalwyr di-dâl yng Nghymru yn darparu gofal amhrisiadwy, yn aml am gost fawr i'w hiechyd a'u lles eu hunain, yn ogystal â'u harian eu hunain. Dengys ymchwil, yng Nghymru yn unig, fod y gofal a ddarperir gan ofalwyr di-dâl Cymru yn arbed dros £10 biliwn y flwyddyn i'r wladwriaeth ac yn cael effaith enfawr ar lesiant y bobl y maent yn darparu gofal ar eu cyfer"*
>
> CARERS WALES [92]

Mae'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn darparu grantiau ar gyfer bwyd, eitemau cartref ac eitemau electronig, yn ogystal â gwasanaethau cymorth i ofalwyr di-dâl. Sefydlwyd y buddsoddiad hwn o £4.5m ym mis Mehefin 2022 ac mae i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2025.[91] Mae meini prawf cymhwysedd ehangach wedi bod yn ddefnyddiol ac yn cynrychioli cynnydd ers Cerdyn Sgorio 2022, ond crafu'r wyneb yn unig a wna'r gronfa. Gallai iteriadau yn y dyfodol gael effaith sylweddol pe bai mwy o adnoddau yn cael eu hymrwymo a bod arian yn cael ei ddosbarthu'n cyson.

Mae'r heriau wrth weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn parhau, a nododd rhanddeiliaid fod hyn ond yn gwaethygu llawer o'r materion sy'n wynebu gofalwyr di-dâl. Mae sawl adroddiad wedi tynnu sylw at ymwybyddiaeth anghyson o hawliau a mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl.[93] Yn y data diweddaraf sydd ar gael, yn 2021/22, nid oedd dros 90% o ofalwyr di-dâl ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cael asesiad nac ailasesiad o'u hanghenion, a dim ond 0.1% i 6% oedd â chynllun cymorth.[94] Nododd rhanddeiliaid fod heriau yn ymwneud ag ymwybyddiaeth gofalwyr o'u hawl i asesiad, a gofalwyr yn aros am gyfnodau hir i gael asesiad unwaith y gofynnir amdano. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd gwerthusiad annibynnol o'r Ddeddf a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ei adroddiad terfynol, gan gadarnhau eto'r heriau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a chanfod bod y system yn parhau i fod yn anodd ac yn flinedig i ofalwyr di-dâl ei llywio, gan gyfyngu ar fynediad at y cymorth y mae ganddyn nhw hawl iddo.[95] TGall lansiad diweddar y Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, sy'n nodi hawliau cyfreithiol gofalwyr di-dâl yng Nghymru o dan Ddeddf Gwasanaethau

---

[90] Cyflwr Gofalu 2023: Effaith gofalu ar gyllid yng Nghymru | Carers UK

[91] Rhaglen Cronfa Gymorth Gofalwyr Cymru

[92] Adroddiad newydd yn tynnu sylw at yr angen brys i fynd i'r afael â thlodi ymhlith gofalwyr di-dâl yng Nghymru / Adroddiad Newydd Yn Amlygu Angen Brys i Fynd i'r Afael â Thlodi Ymhlith Gofalwyr Di-dâl yng Nghymru

[93] Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfres 'Tracio'r Ddeddf' Gofalwyr Cymru; Adroddiad Grŵp Arbenigol y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol; Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd; a Gwerthusiad annibynnol Prifysgol De Cymru; ac adolygiad cyflym gan ADSS Cymru.

[94] Gofalwyr di-dâl yng Nghymru a mynediad at gefnogaeth ariannol a statudol | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

[95] Adroddiad terfynol: gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Datganiad ar werthusiad annibynnol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | Carers UK

Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, helpu i wella ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried cynllun gweithredu pwrpasol, gyda monitro, gwerthuso ac adrodd parhaus, er mwyn sicrhau atebolrwydd a chyflawni hawliau a pholisïau cenedlaethol yn gyson.[96]

### Gofal Plant

Mae absenoldeb gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn parhau i rwystro cyfranogiad menywod mewn cyflogaeth â thâl ac yn gwaethygu anghydraddoldeb rhywedd yng Nghymru. Mae adroddiad Oxfam Cymru 2023 yn tynnu sylw at rwystrau parhaus o ran mynediad i ofal plant, gan effeithio ar gyfranogiad menywod yn y gweithlu, iechyd meddwl a chydraddoldeb economaidd a chymdeithasol.[97] Mae data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod 25.2% o fenywod, o gymharu â 7% o ddynion, allan o waith oherwydd 'gofalu am deulu/cartref'.[98]

Mae costau gofal plant yng Nghymru yn parhau i godi, gyda phrisiau'n cynyddu 2.6% ar gyfer plant tri-pedwar oed a 2.8% ar gyfer plant dim-dau oed rhwng 2022 a 2023.[99] Dangosodd ymchwil gan Pregnant Then Screwed a'r Sefydliad Economeg Newydd, fod rhieni incwm is yng Nghymru, yn gymesur â'u hincwm, yn gwario bron i ddeg gwaith yn fwy ar ofal plant, o' gymharu â'r 20% o rieni cyfoethocaf. Mae cost uchel gofal plant (er gwaethaf y cyflogau isel a dderbynnir gan weithwyr y sector), yr amcangyfrifir ei fod yn £46,215 am 40 awr yr wythnos dros bedair blynedd, yn faich sylweddol ac yn aml yn ormod i deuluoedd.[100]

Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at gynnydd mewn pwysau cyhoeddus. Ym mis Hydref 2022, tynnodd Gorymdaith y Mamau sylw at y gosb o fod yn fam ledled y DU, gan alw am ofal plant fforddiadwy o ansawdd da i bob plentyn yn ogystal â threfniadau gweithio hyblyg diofyn a thâl absenoldeb rhiant priodol.[101] Llwyddodd dwy ddeiseb i'r Senedd ennill bron i 11,000 o lofnodion rhyngddynt a sbarduno dadl lawn ym mis Ionawr 2024. Roedd hyn yn weithred nodedig a danlinellodd yr angen i Lywodraeth Cymru weithredu ar frys.[102] Mae Grŵp Arbenigol ar Ofal Plant yng Nghymru, sy'n cynnwys sawl sefydliad trydydd sector, yn gweithio i ddatblygu glasbrint ar gyfer gofal plant yng Nghymru.[103]

Roedd ehangiad Llywodraeth Cymru o'r Cynnig Gofal Plant ym mis Medi 2022 i gynnwys rhieni mewn hyfforddiant neu addysg, a rhieni cymwys ar absenoldeb mabwysiadu, yn gam cadarnhaol.[104] Canfu'r gwerthusiad diweddaraf o'r Cynnig Gofal Plant ei fod wedi llwyddo i gynyddu cyfranogiad yn y gweithlu ac wedi darparu cymorth ariannol i rieni.[105] Ond mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am welliannau, megis ehangu capasiti yn y

[96] Siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl
[97] Camau bach, brwydrau mawr: Gofal Plant yng Nghymru | Oxfam Cymru, Tach 2023
[98] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023
[99] Arolwg Gofal Plant 2023 | Coram
[100] Welsh families are spending £46,215 per child for full time childcare. It's time for a Family Childcare Promise | Pregnant Then Screwed
[101] March Of The Mummies Protest | Pregnant Then Screwed
[102] Deiseb a gwblhawyd: Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr
[103] Llythyr gan Grŵp Cynghori Arbenigol ar Ofal Plant yng Nghymru at Jenny Rathbone AS
[104] Hawl i ofal plant yn y blynyddoedd cynnar: Cwestiynau Cyffredin
[105] Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 5 (Medi 2021 i Awst 2022)

sector, cynyddu hyblygrwydd a mynd i'r afael ag anghyfartaledd daearyddol er mwyn gwneud gofal plant yn fwy hygyrch.[106]

Nododd y gwerthusiad hefyd wahaniaethau yn y nifer sy'n manteisio ar draws awdurdodau lleol, gyda rhai ardaloedd yn profi dirywiad. Mae galw is na'r rhagolygon wedi cael ei ddefnyddio fel cyfiawnhad dros dorri cyllid gofal plant yng nghyllideb Llywodraeth Cymru 2024/25, sy'n cyferbynnu â phrofiadau llawer o rieni a'r angen dybryd am ofal plant fforddiadwy a hygyrch yng Nghymru.[107]

Parhaodd elfen gofal plant y Cynllun Dechrau'n Deg i gael ei gyflwyno ar gyfer plant rhwng dwy a thair oed. Er bod gan y cynllun lawer o bethau cadarnhaol, mae ei effaith o ran cefnogi bywydau gwaith teuluoedd yn gyfyngedig iawn. Mewn un arolwg, roedd bron i 90% o rieni yn credu nad yw hawl Dechrau'n Deg o 2.5 awr y dydd yn ddigonol, ac mae arolygon o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant Awdurdodau Lleol yn awgrymu nad yw'n cynnig digon o oriau i rieni allu gweithio.[108] Mae cyfyngiadau o ran cymhwysedd i absenoldeb yn golygu bod gan lawer o deuluoedd gostau gofal plant uchel.[109] Mynegwyd pryderon hefyd am gryfder ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer plant dwy oed.[110]

Mae amryw o randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr y sector blynyddoedd cynnar, o'r farn fod llwybr gofal plant rhieni yn fwy cymhleth ers 2022 a gall gynnwys llywio tâl statudol mamolaeth/tadolaeth, mynediad at Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed, y Cynnig Gofal Plant ac yn y pen draw addysg llawn amser o dair oed.[111] Mae'n werth nodi nad oes cefnogaeth wedi'i hariannu ar hyn o bryd i fabanod a phlant o dan ddwy oed a thros bedair oed, gan gyflwyno heriau i rieni yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ac yn ystod gwyliau ysgol.

Lansiodd Llywodraeth Cymru Teulu Cymru ym mis Ebrill 2024 ar ôl gwneud ymchwil gyda rhieni yng Nghymru. Mae Teulu Cymru yn ceisio helpu rhieni, gofalwyr a theuluoedd plant 0-18 oed i lywio gwahanol ffynonellau cymorth ymarferol ac ariannol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg a gofal plant sy'n rhydd o dreth, yn ogystal â chyfeiriadau at gymorth budd-daliadau, cymorth i deuluoedd lleol, a chyngor dibynadwy ar rianta.[112] Mae'r cynllun hwn yn gam calonogol i'w gwneud hi'n haws i deuluoedd ledled Cymru gael gafael ar gymorth, ond mae angen mwy o waith i symleiddio'r system ar frys.

> *"Mae pryderon eang bod ymagwedd Llywodraeth Cymru at addysg a gofal plentyndod cynnar yn ddryslyd ac yn dameidiog, ac nad oes gweledigaeth glir."*
>
> *PWYLLGOR CYDRADDOLDEB A CHYFIAWNDER CYMDEITHASOL Y SENEDD* [113]

[106] Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 5 (Medi 2021 i Awst 2022)
[107] Rhieni'n mynd i ddyled oherwydd cost gofal plant | Cymru Fyw; Camau bach, brwydrau mawr: Gofal Plant yng Nghymru | Oxfam Cymru, Tach 2023
[108] Camau bach, brwydrau mawr: Gofal Plant yng Nghymru | Oxfam Cymru, Tach 2023; Trosolwg o'r themâu allweddol yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022 i 2027
[109] Issues Affecting the Early Years Sector from the Expansion of Flying Start.
[110] Rolling back on childcare commitments? | Sefydliad Bevan
[111] Taclo anfantais trwy ofal plant yng Nghymru | Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree, 2024
[112] Teulu Cymru
[113] 'Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth?', Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, Gorffennaf 2024

Mae bylchau yn y ddarpariaeth wedi parhau ac, mewn rhai achosion, wedi cynyddu. Canfu Arolwg Gofal Plant Coram 2023 nad oedd yr un awdurdod lleol yng Nghymru wedi nodi bod digon o ofal plant ar draws y fwrdeistref ar gyfer plant anabl, rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Ers 2021, mae nifer yr awdurdodau lleol sydd heb ofal plant ar gyfer y grwpiau hyn ar draws eu hardal gyfan wedi cynyddu ac erbyn hyn yn sefyll ar tua thraean o'r awdurdodau lleol ar gyfer pob un o'r tair demograffeg.[114] O ystyried cwmpas yr heriau sy'n wynebu'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar, mae'n annhebygol y gellir llenwi'r bylchau hyn â swm y cyllid a ddarperir ar hyn o bryd.

Nid yw Cyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw arwydd y bydd cyllid canlyniadol Barnett o £140 miliwn, sy'n deillio o gynnydd mewn gwariant gofal plant yn Lloegr, yn cael ei ddyrannu i ofal plant yng Nghymru.[115] Nododd rhanddeiliaid fod hyn yn dangos diffyg ymroddiad i fuddsoddi mewn gofal plant. Yn hytrach na lleihau cyllid, mae'n hanfodol bod adnoddau yn cael eu hymrwymo i sicrhau bod darpariaethau gofal plant yn diwallu anghenion teuluoedd drwy fynd i'r afael â rhwystrau fel system gymhleth a datgymalog, bylchau yn y ddarpariaeth a diffyg gwybodaeth.[116]

Mae'n bwysig deall faint sy'n derbyn gofal plant ymhlith gwahanol gymunedau, gan gynnwys teuluoedd lleiafrifoedd ethnig. Felly croesewir sefydlu Grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Chwarae Cymru Wrth-hiliol i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.[117] Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd yr IPPO a WCPP ymchwil ar y defnydd o ofal plant blynyddoedd cynnar ymhlith teuluoedd lleiafrifoedd ethnig, gydag argymhellion ar yr angen am strategaeth bwrpasol ac integredig; mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol; ac ymgysylltu cymunedol.[118] Mae'r Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar a adnewyddwyd yn ddiweddar yn ymrwymo i sefydlu gweithgor i nodi rhwystrau sy'n wynebu pobl leiafrifol ethnig wrth gael mynediad at wasanaethau.[119] Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Cwlwm a Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL) i ddatblygu prosesau, adnoddau a hyfforddiant cynhwysol ar gyfer lleoliadau gofal plant.[120]

Mae colli'r rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PACE), a ariannwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, yn dileu cymorth gofal plant hanfodol i rieni sy'n ymgymryd â hyfforddiant neu'n chwilio am waith. Gyda chyfrifoldebau gofalu yn rhwystr allweddol i fenywod gael mynediad i'r gweithlu, mae cau'r prosiect hwn yn debygol o gael effaith arbennig o arwyddocaol ar gyfleoedd cyflogaeth i fenywod.[121]

[114] Coram - Arolwg Gofal Plant 2023
[115] Cyllideb Ddrafft 2024 i 2025; Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 11/01/2024 | Senedd Cymru
[116] 'Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth?', Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, Gorffennaf 2024
[117] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
[118] Sut gall polisi gynyddu mynediad at gymorth gofal plant y blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd lleiafrifoedd ethnig?
[119] Cynllun 10 Mlynedd Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Adolygiad a Diweddariad - 2024
[120] Gweinidog y Blynyddoedd Cynnar yn lansio canllawiau gwrth-hiliol ar gyfer lleoliadau gofal plant
[121] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): Gwerthuso Crynodol Terfynol

### Y sector gofal cymdeithasol a gofal plant

Mae 82% o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn fenywaidd, gweithlu sydd wedi bod mewn argyfwng ers cyn y pandemig.[122] Mae parhad cyllid i sicrhau bod codiadau olynol Cyflog Byw Gwirioneddol (RLW) yn cael eu talu i bob gweithiwr gofal cymdeithasol yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer RLW yn cyrraedd y sector, yn rhannol am nad yw wedi'i neilltuo. Rhaid i waith barhau i sicrhau bod RLW yn cael ei weithredu ar draws y sector, gan gynnwys gwaith gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i wella telerau ac amodau.[123]

Byddai'r nod hirdymor o sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn sicrhau bod gofal cymdeithasol am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, yn mynd i'r afael ag anghysonderau mewn profion cymhwysedd ledled Cymru, yn lleihau costau gofal ac yn cefnogi integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid fod yr uchelgais hwn yn gwrthdaro â'r cynnig i gynyddu'r cap ar daliadau gofal cymdeithasol amhreswyl, a fyddai'n gwaethygu amodau i bobl anabl a gofalwyr di-dâl.[124]

Mae materion sylweddol yn parhau gydag amodau cyflogaeth ar draws y sector gofal cyflogedig, yn enwedig o ran y recriwtio a'r cadw sydd eu hangen i ehangu gofal plant yng Nghymru. Nododd rhanddeiliaid, er bod gofal plant yn anfforddiadwy i rieni, bod llawer o weithwyr gofal plant ar gyflogau isel ac ar gontractau swyddi ansicr. Mae'r heriau hyn wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y gweithwyr gofal plant yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod oddeutu 17,300 o weithwyr yn y gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru yn 2021, ac ychydig dros 16,000 yn 2024.[125] Er bod gweithwyr gofal plant yn wynebu heriau a chyfrifoldebau nad ydynt yn annhebyg i ofal cymdeithasol, nid oes ganddynt hawl ar hyn o bryd i'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Nid yw'r cyllid yn ddigon uchel i ganiatáu i gyflogau gweithwyr gynyddu a chynnal safonau ansawdd, yn ogystal â gwireddu uchelgeisiau fel Cymraeg 2050.[126] Dangosodd arolwg diweddar fod 91% o feithrinfeydd yng Nghymru yn disgwyl naill ai adennill costau neu weithredu ar golled, sy'n peri risgiau i economïau lleol a'r seilwaith ehangach a ddarperir gan wasanaethau gofal.[127]

Mae Cynllun 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar wedi'i adolygu a'i adnewyddu. Sefydlir Fframwaith Gwaith Teg Gofal Plant a Gwaith Chwarae Partneriaeth Gymdeithasol yn fuan i fynd i'r afael â materion gweithlu allweddol fel recriwtio, cadw, dilyniant gyrfa a gwaith teg. [128] Nod y Cynllun hefyd yw cefnogi gweithlu amrywiol, sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae Adolygiad Annibynnol Llywodraeth Cymru o Warchod Plant 2023 yn gam cadarnhaol, gydag ymdrechion parhaus i gefnogi gwarchodwyr plant newydd a darpar

[122] Arolwg gweithlu gofal cymdeithasol 2023; Troi'r sylw ar weithwyr gofal cymdeithasol – yr heriau diweddaraf sy'n wynebu'r sector - Rhan 2
[123] Ggorwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol: diweddariad cynnydd blynyddol 2024
[124] Codi'r uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl i oedolion
[125] Mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae: Adroddiad Cam 2
[126] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
[127] Wales Childcare Crisis: Nine in ten nurseries expect to make a loss or break even | NDNA
[128] Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Adolygiad a Diweddariad

warchodwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a chanllawiau sydd ar ddod i leihau beichiau gweinyddol.[129]

Gwnaed sawl gwelliant i ddarparwyr gofal plant, gan gynnwys gwasanaeth digidol Cynnig Gofal Plant Cymru sydd bellach yn symleiddio'r broses o brosesu taliadau ar gyfer darparwyr.[130] Mae ymestyn yr eithriad rhyddhad ardrethi busnes hyd at fis Mawrth 2025 yn ddefnyddiol ar gyfer safleoedd gofal plant cofrestredig, gyda'r gobaith y bydd yn dod yn barhaol.[131]

Mae mentrau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys creu tudalen we benodol Cymru'n Gweithio ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ym mis Ionawr 2023, yn amlygu cyfleoedd gyrfa a dilyniant yn y sectorau gofal plant a gwaith chwarae. Yn ogystal, nod prosiect mapio'r gweithlu a gomisiynwyd yw deall cyfansoddiad y sector yn well a mynd i'r afael â heriau recriwtio, gan nodi'r angen am fwy o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg i gyrraedd targedau'r awdurdodau lleol.[132] Bydd fframweithiau atebolrwydd a monitro yn hanfodol i wneud yr ymdrechion hyn yn llwyddiant, gan fod recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn fater pwysig ac efallai y bydd angen gwelliannau mewn cyflogau, amodau gwaith a dilyniant gyrfa ochr yn ochr â'r rhain.

## Cynnydd ers Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl, yn enwedig drwy sefydlu'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr a'r ymrwymiad £9m i'r Cynllun Seibiant Byr. Mae'r meini prawf cymhwysedd ehangach ar gyfer y Gronfa Cymorth i Ofalwyr wedi caniatáu mwy o gynwysoldeb wrth gael mynediad at grantiau ar gyfer anghenion hanfodol. Yn ogystal, mae ymdrechion parhaus Llywodraeth Cymru i weithredu Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn nodi newid cadarnhaol tuag at wella amodau ar gyfer y gweithlu gofal cyflogedig, gan fynd i'r afael â materion hirsefydlog a amlygwyd yng Ngherdyn Sgorio 2022.

Fodd bynnag, mae gofalwyr di-dâl yn dal i wynebu straen corfforol, meddyliol ac ariannol dwys, gyda chymorth cyfyngedig ar gael. Mae bwlch yn parhau rhwng addewidion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'r realiti i ofalwyr ar lawr gwlad. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i heriau gofal plant wedi dangos gwelliannau cymedrol yn unig. Er bod cynigion gofal plant wedi'u hehangu ac ymgyrchoedd gwybodaeth gwell wedi'u cynnal, mae'r diffyg integreiddio rhwng gwahanol raglenni, ynghyd â darpariaethau anghyson ar draws awdurdodau lleol, yn parhau i rwystro hygyrchedd a fforddiadwyedd. Mae'r pryderon a godwyd ynghylch digonolrwydd y darpariaethau ar gyfer teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig ac aelwydydd incwm isel, yn parhau i fod yn amlwg. Mae'r rhain yn dangos yr angen brys am ddiwygiadau polisi cynhwysfawr i sicrhau bod cefnogaeth yn deg ac yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd yng Nghymru yn effeithiol.

[129] Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant; Datganiad Ysgrifenedig: Wythnos Genedlaethol Gwarchod Plant: Cefnogi gwarchodwyr plant, Mai 2024
[130] Gwasanaeth digidol Cynnig Gofal Plant Cymru: cyflwyniad i ddarparwyr
[131] Ymestyn rhyddhad ardrethi i ddarparwyr gofal plant hyd at 2025
[132] Mapio'r gweithlu gofal plant a chwarae yng Nghymru:

ddiwygiadau polisi cynhwysfawr i sicrhau bod cefnogaeth yn deg ac yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd yng Nghymru yn effeithiol.

## ARGYMHELLION

- **Cynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn unol â gwerthusiad annibynnol 2023.**
- **Symleiddio'r rhaglenni Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg drwy gael un ffurflen gais a darparu ar gyfer pontio di-dor rhwng gwahanol raglenni cymorth gofal plant.**
- **Gweithio tuag at ddarparu 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu i bob plentyn o'r adeg y daw absenoldeb rhiant â thâl i ben ac ehangu cymhwysedd i rieni di-waith, y rhai sy'n gweithio llai nag 16 awr a phobl sy'n ceisio lloches.**
- **Sicrhau bod lefelau cyllido yn ddigonol i alluogi darparwyr i recriwtio a chadw gweithwyr gofal plant proffesiynol i gefnogi'r gwaith o ehangu gwasanaethau gofal plant a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant.**
- **Cyflwyno a gweithredu cyflog byw gwirioneddol ar draws y sector yn gyson ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, gyda gwell cyfleoedd dilyniant gyrfa a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant.**
- **Cydnabod a gwerthfawrogi gwaith gofal di-dâl ar draws pob oedran, gyda buddsoddiad priodol mewn gofal seibiant, gwasanaethau cymorth a gwell adnabyddiaeth o ofalwyr di-dâl.**

# CYNRYCHIOLAETH AC ARWEINYDDIAETH CYFARTAL

SGÔR: OREN

## Senedd

Mae cyfansoddiad y Senedd wedi aros yn ddigyfnewid ers y Cerdyn Sgorio Ffeministaidd diwethaf yn 2022. Mae cynrychiolaeth menywod yn 43%, heb unrhyw newid yn y data ar gyfer grwpiau ymylol eraill. Ers datganoli, dim ond un fenyw leiafrifol ethnig sydd wedi bod yn AS, a thri Aelod Senedd (5%) o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn gyffredinol. Bu tri (5%) o ASau LHDTC+ agored, ond dim Aelodau Seneddol trawsryweddol neu anneuaidd agored.

Yng Ngherdyn Sgorio Ffeministaidd 2022, roedd naw o bedwar ar ddeg (64%) o aelodau'r cabinet yn fenywod. Cyfatebwyd y gyfran hon wrth ad-drefnu'r cabinet diweddaraf ym mis Medi 2024. Mae un ysgrifennydd cabinet LHDTC+ (dyn) agored, ond erbyn hyn does dim cynrychiolaeth ethnig leiafrifol yng Nghabinet Llywodraeth Cymru.

Ym mis Awst 2024, penodwyd Eluned Morgan AS fel y Prif Weinidog benywaidd cyntaf. Er bod hon yn garreg filltir bwysig o ran torri'r nenfwd gwydr yng ngwleidyddiaeth Cymru, cafodd ei dilyn yn fuan gan wrthdroi ymrwymiad allweddol gan Lywodraeth Cymru i ymgorffori cwotâu rhywedd yn y gyfraith trwy Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).[133] Y bwriad gwreiddiol oedd i'r Bil ddod i rym yn 2026, ond cafodd ei dynnu'n ôl ym mis Medi 2024. Mae hyn yn cynrychioli newid cyfeiriad difrifol, yn enwedig o ystyried y blynyddoedd o waith a wnaed i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, a'r ffaith ei bod ym mis Mehefin 2024 wedi pasio ei phleidlais egwyddorion cyffredinol yn y Senedd.

> *"Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i gynlluniau ar gyfer cwotâu rhywedd yn etholiad nesaf y Senedd yn gam enfawr yn ôl i ddemocratiaeth Cymru ac mae'n golygu y gallai'r Senedd ddod yn llai cynrychioliadol nag erioed yn yr etholiad nesaf."*
>
> CYMDEITHAS DIWYGIO ETHOLIADOL CYMRU [137]

Mae cyfoeth o ymchwil ac enghreifftiau cymharol yn dangos yn glir mai cwotâu rhyweddol deddfwriaethol yw'r offeryn mwyaf effeithiol ar gyfer gwella cynrychiolaeth menywod mewn cyrff etholedig.[134] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar ganllawiau ynghylch strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol, a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), fel modd o gyflawni newid pendant erbyn etholiad nesaf y Senedd yn 2026.[135] Tra bo gan bleidiau rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal mae yna risg na fydd y mesurau gwirfoddol hyn yn ddigonol i atal gostyngiad pellach yng nghynrychiolaeth menywod wrth ehangu'r Senedd  o 60 i 96 o aelodau yn 2026.[136]

133 Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

134 Gender Quotas Database | International IDEA; Drude Dahlerup et al. (2013), Atlas of Electoral Gender Quotas, International Institute for Democracy and Electoral Assistance [IDEA], IPU and Stockholm University, adalwyd 27 Mar 2024.

135 Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024

136 Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru)

137 Dropping of gender quotas legislation risks backstep on women's representation, warn campaigners

Mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 hefyd yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo amrywiaeth ymgeiswyr trwy fesurau fel cyngor, mentora, hyfforddiant a chymorth ariannol, y dangoswyd bod pob un ohonynt yn annog cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal.[138] Mae'r darpariaethau, sy'n berthnasol i etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol, hefyd yn gwneud cynllun arbennig yn un parhaol, sef cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl a gafodd ei dreialu yn etholiadau diweddar Cymru ac a allai ganiatáu cynllun tebyg ar gyfer ymgeiswyr â chyfrifoldebau gofalu.

## Llywodraeth leol

Nid oes data cyfredol ar lefel llywodraeth leol, ond gellir disgwyl i gynrychiolaeth menywod aros o gwmpas y ffigur o 36% a adroddwyd ar ôl etholiadau 2022.[139] 2022.[140] Yn ôl Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022, roedd 3% o'r ymgeiswyr etholedig o gefndir ethnig lleiafrifol a nododd 8% eu bod yn LHDTC+. Fodd bynnag, oherwydd cyfraddau ymateb amrywiol ac isel, gallai ffigurau gwirioneddol amrywio'n sylweddol.[141]

Mae'r mater parhaus o ddata dibynadwy annigonol ar amrywiaeth ymgeiswyr ar lefelau lleol a chenedlaethol yn parhau i fod yn bryder, gyda rhai cynghorau'n nodi cyfraddau ymateb mor isel ag 1% yn yr arolygon ymgeiswyr diweddaraf.[142] Yn ogystal, mae bwlch nodedig o hyd mewn data ynghylch nifer yr ymgeiswyr anabl ar draws pob lefel o lywodraeth.

## Diwylliant a ffyrdd o weithio

Mae ymatebion i ymchwiliad 2023 y Pwyllgor Safonau i urddas a pharch yn dangos bod angen mwy o waith i sicrhau y gall menywod fod â hyder ym mholisïau a gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer mynd i'r afael ag adroddiadau o gamymddwyn yn effeithiol, yn enwedig aflonyddu rhywiol.[143] Mae trefniant rhannu swyddi yn offeryn pwysig ar gyfer gwneud swydd etholedig yn fwy hygyrch i ystod ehangach o ymgeiswyr, gan gynnwys ymgeiswyr anabl a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac mae ymgyrchwyr wedi galw am hyn ers amser maith.[145] Mae argymhellion i symud trefniant rhannu swyddi yn ei flaen hefyd wedi'u gwneud gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yn 2017 a'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn 2022.[146]

> *"Y peth pwysicaf, yn fy marn i, yw ceisio newid y diwylliant a'r ffordd y mae pobl yn ymddwyn mewn gwleidyddiaeth – ac yn anffodus nid yw hyn yn digwydd yn y ffordd y byddem yn dymuno i hynny ddigwydd.*
> YR ATHRO LAURA MCALLISTER[144]

[138] Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 | Senedd; Barriers to Women Entering Parliament and Local Government | Institute for Policy Research
[139] Election 2022: Welsh politics needs more women, new councillor says
[140] Cyflwr y Genedl 2024 | WEN Cymru
[141] Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol: 2022
[142] Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol: 2022
[143] Ymchwiliad i urddas a pharch | Pwyllgor Safonau'r Senedd
[144] Gender equality in politics: Changing culture is most important | Professor Laura McAllister
[145] Rhannu swyddi i Aelodau o'r Senedd | WEN Cymru
[146] Senedd sy'n gweithio i Gymru | Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad; Diwygio ein Senedd | Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Mae ymgynghoriadau diweddar ar drefniant rhannu swyddi ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau yn y Senedd, ac ar ehangu trefniadau rhannu swyddi mewn llywodraeth leol, yn dangos rhywfaint o gynnydd ers Cerdyn Sgorio 2022.[147] Fodd bynnag, yn ôl darpariaethau Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, ni fydd gwaith pwyllgor sylweddol ar drefniant rhannu swyddi yn dechrau tan ar ôl etholiad 2026, gan nodi bron i ddegawd o oedi ers i'r gwaith hwn gael ei argymell gyntaf.[148]

Ym mis Mehefin 2022, gwnaed trefniadau gweithio o bell yn y Senedd yn fesur parhaol, gan wneud rôl AS yn fwy hygyrch. Yn anffodus, nid oes cyfleusterau gofal plant yn y Senedd o hyd. Mae'n hanfodol bod darpariaethau o'r fath, ynghyd â threfniadau gweithio sy'n addas i deuluoedd, yn rhan o baratoadau Comisiwn y Senedd ar gyfer ehangu'r Senedd yn 2026.

Mae trais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth yn broblem gymhleth a chynyddol.[149] Canfu ymchwil o 2023 fod 80% o ASau ac Aelodau Senedd Cymru wedi teimlo dan fygythiad tra yn y swydd, ac mae 43% wedi derbyn bygythiadau i'w lladd.[150] Mae rhai grwpiau'n cael eu targedu'n amlach ac mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys menywod; dywed bron i dri chwarter yr ASau benywaidd nad ydyn nhw'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i siarad ar rai materion oherwydd yr amgylchedd camdriniol ar-lein, o gymharu â 51% o ddynion.[151]

## Byrddau'r sector cyhoeddus

Gan nad yw'r heriau data ynglŷn â phenodiadau cyhoeddus wedi'u datrys eto, mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael i'r cyhoedd yn dyddio o 2021/22. Mae'r rhain yn dangos bod 59% o benodiadau yn fenywod, cynnydd o 56% yn 2020/21.[152] Cododd cyfran y penodiadau ac ailbenodiadau cyhoeddus o ran pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig hefyd, o lai na 5% yn 2020/21 i 12.7% yn 2021/22.[153] Fodd bynnag, mae argaeledd data ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill a chroestoriadedd, gan gynnwys cynrychiolaeth menywod anabl, yn parhau i fod yn broblem ar draws y bwrdd.

Effeithiodd pandemig Covid-19 ar y gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru 2020-23.[154] Dylid adolygu a gwerthuso'r ymrwymiadau yn y strategaeth hon yn awr, gan sefydlu rhaglen waith wedi'i hadnewyddu i sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas Cymru.

Daeth Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal:  Rhaglen Mentora Bywyd Cyhoeddus i ben ym mis Mehefin 2024, heb unrhyw gyllid i barhau ar unwaith.[155] Mae cynlluniau o'r fath yn

[147] Rhannu swyddi cadeirydd pwyllgor | Pwyllgor Busnes y Senedd; Ymgynghoriad ar ymestyn darpariaethau rhannu swydd ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau i rolau nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth
[148] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) 2024
[149] Strengthening democracy by reducing threats to women in politics | Blavatnik School of Government, 2024
[150] MP abuse: 'My staff have to sit behind bulletproof glass' says Welsh politician Fay Jones | ITV News Wales
[151] A House For Everyone: The Case for Modernising Parliament | The Fawcett Society, 2023
[152] Cyflwr y Genedl 2024 | WEN Cymru
[153] Adroddiadau blynyddol | Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
[154] Cwestiwn Ysgrifenedig, WQ93887 | Senedd Cymru
[155] Pŵer Cyfartal, Llais Cyfartal:  Rhaglen Mentora Bywyd Cyhoeddus

hanfodol er mwyn cynyddu amrywiaeth cynrychiolaeth mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol yng Nghymru, ac rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r bwlch hwn. Mae etholiad y fenyw leiafrifoedd ethnig gyntaf fel Arglwydd Faer Caerdydd yn 2023, sef cyn-fyfyriwr o fenter gynharach i annog menywod i fywyd cyhoeddus, yn dangos effaith gadarnhaol rhaglenni o'r fath.[156]

Roedd cau Chwarae Teg yn golygu diwedd Step to Non Exec, rhaglen 12 mis a oedd yn helpu menywod i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ddod yn gyfarwyddwyr anweithredol. O ganlyniad, bydd llai o gyfleoedd nawr i fenywod gael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau swyddi bwrdd.

## Cynnydd ers Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022

Roedd penodi'r Prif Weinidog benywaidd cyntaf yn garreg filltir ar gyfer cynrychiolaeth menywod, ac mae cyfran y menywod yng Nghabinet Llywodraeth Cymru yn parhau'n uchel. Fodd bynnag, mae nifer yr arweinwyr llywodraeth leol benywaidd wedi gostwng yn sylweddol i ddim ond 9%. Ar lefel ehangach y Senedd a llywodraeth leol, nid yw cynrychiolaeth menywod wedi newid oherwydd absenoldeb etholiadau, gyda chynrychiolaeth gyfyngedig o fenywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol.

Mae deddfwriaeth ar y gweill sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth cadarnhaol os caiff ei gweithredu'n ystyrlon cyn etholiadau nesaf y Senedd a llywodraeth leol. Mae cyflwyno dyletswydd i wella amrywiaeth ymgeiswyr, ynghyd â chanllawiau ar gamau gwirfoddol ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), yn adlewyrchu ymrwymiad clir i wella amrywiaeth.[157] Mae Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) hefyd yn nodi ymrwymiad parhaus i drefniant rhannu swyddi, ond mae'n siomedig fod cynnydd yn hyn o beth wedi'i ohirio tan ar ôl etholiad 2026.[158]

Mae tynnu Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn ôl – er i'r bleidlais egwyddorion cyffredinol basio yn y Senedd a'r ffaith fod hyn yn elfen graidd o'r Cytundeb Cydweithio - yn gyfle sylweddol a gollwyd i gyflwyno cwotâu rhywedd.[159] Cawn weld a fydd mesurau eraill, y gwyddys eu bod yn llai effeithiol na chwotâu, yn sicrhau'r cynnydd perthnasol.

[156] Cardiff: First woman of colour Bablin Molik appointed lord mayor | BBC News
[157] Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024
[158] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru)
[159] Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

## ARGYMHELLION

- Sicrhau bod Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn cael ei osod eto ar yr agenda ddeddfwriaethol mewn pryd ar gyfer etholiad 2030.
- Gweithredu canllawiau a monitro amserol a chadarn i sicrhau bod pleidiau gwleidyddol yn ystyried amrywiaeth yn eu rhestrau ymgeiswyr, gan gwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil, anabledd, oedran, rhywioldeb a hunaniaeth rhywedd.
- Sicrhau bod cyfleusterau gofal plant a ffyrdd o weithio sy'n addas i deuluoedd yn rhan o baratoadau Comisiwn y Senedd ar gyfer ehangu'r Senedd yn 2026.
- Annog y defnydd o drefniant rhannu swyddi gweithredol mewn llywodraeth leol er budd ystod amrywiol o aelodau etholedig trwy rannu arfer gorau ledled Cymru.
- Cefnogi ac ehangu rhaglenni mentora ar gyfer menywod a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus drwy ymrwymo buddsoddiad ar frys yn y gyllideb sydd i ddod.
- Parhau i wella casglu data amrywiaeth ymgeiswyr ar draws y Senedd, llywodraeth leol a byrddau cyhoeddus.
- Gweithredu argymhellion o'r Adolygiad o Beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru, gan gynnwys ymestyn y Gronfa i dalu costau gofalu ac archwilio cefnogaeth i ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig eraill, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Cryfhau safonau a gweithdrefnau cwyno i amddiffyn ymgeiswyr a chynrychiolwyr etholedig rhag aflonyddu a chamdriniaeth.

# RHOI DIWEDD AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

## SGÔR: OREN

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV) yn parhau i fod yn bryder allweddol sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod ac sy'n cael ei gyflawni'n bennaf gan ddynion.[160]

Yn 2023, cafodd 5.7% o fenywod a 3.2% o ddynion 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr brofiad o gam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â 6.9% o fenywod a 3% o ddynion yn 2022.[161] Mae menywod yn parhau i fod yn fwy tebygol na dynion o gael eu lladd gan rywun maen nhw'n ei adnabod.[162] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, roedd 70% o ddioddefwyr dynladdiad domestig yng Nghymru a Lloegr yn fenywod - cynnydd bach o 67.3% yn 2020-2022.[163] Mae achosion o VAWDASV yn dal i fethu â chael eu hadrodd, ac mae diffyg data wedi'i ddadgyfuno ar gyfer Cymru. Nid yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru na'i hadroddiad cynnydd blynyddol yn cynnwys data penodol i Gymru.[164]

> *Gellir disgrifio cyffredinrwydd [trais ar sail rhywedd] yn ein cymdeithas fel epidemig. [...] Credwn mai anghydraddoldebau cymdeithasol sydd wrth wraidd yr epidemig hwn, a'r pwysicaf ohonynt yw anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Fel egwyddor gyffredinol, mae'n rhaid gweithredu polisïau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau."*
>
> PWYLLGOR CYDRADDOLDEB A CHYFIAWNDER CYMDEITHASOL Y SENEDD [169]

Mae cyfran y bobl anabl sy'n adrodd am gam-drin domestig tua thair gwaith yn uwch na'r hyn a adroddir gan bobl nad ydynt yn anabl.[165] Trais a cham-drin domestig oedd y profiadau niweidiol mwyaf cyffredin a nodwyd gan fenywod a gyfeiriwyd at fanciau bwyd yn rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell yng Nghymru.[166] Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, cofnodwyd 4,732 o droseddau casineb trawsryweddol yng Nghymru a Lloegr, cynnydd o 11% o'r flwyddyn flaenorol.[167]

Cynyddodd troseddau a adroddwyd yng Nghymru a Lloegr a oedd yn ymwneud â cham-drin 'ar sail anrhydedd', gan gynnwys priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), o 2,642 yn 2020/21 i 2,871 yn 2021/22 a 2,905 yn 2022/23.[168]

[160] Gwneud Cymru'n lle diogel i fod yn fenyw
[161] Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr: blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2023
[162] Who is missing in the data? What the available data on domestic abuse does and doesn't tell us about women's experiences | Women's Aid
[163] Dynladdiad domestig yw marwolaeth person 16 oed neu hŷn sy'n ymddangos i fod yn ganlyniad trais, camdriniaeth neu esgeulustod gan rywun y maent yn perthyn iddynt, mewn perthynas agos â nhw neu yn yr un cartref â nhw.
[164] Dynodi bygythiad cenedlaethol: y Senedd i drafod mesurau i atal yr epidemig trais yn erbyn menywod a merched
[165] Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach?
[166] Newynu yng Nghymru | Ymddiriedolaeth Trussell, 2023
[167] Troseddau casineb, Cymru a Lloegr, 2022 i 2023 ail argraffiad
[168] Statistics on so called 'honour-based' abuse offences, England and Wales, 2022 to 2023
[169] Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd. Ionawr 2024

## Polisi a deddfwriaeth

Ers Cerdyn Sgorio 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth VAWDASV ar gyfer 2022-26.[170] Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac mae'n cynnwys ymrwymiad i adolygu'r dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd gyntaf yn 2019.[171] Mae hanfodol sicrhau cynnydd cyflym y gellir ei fesur, yn enwedig gan fod cwmpas y strategaeth wedi ehangu ers 2019 i gynnwys aflonyddu yn y gweithle ac aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus.[172]

Hanner ffordd drwy'r strategaeth VAWDASV uchelgeisiol hon, mae rhanddeiliaid yn parhau i fod yn gefnogol o'i nodau ond yn nodi nad yw'r newid y gobeithir amdano ers amser maith wedi'i deimlo ar lawr gwlad hyd yma. Mewn gwirionedd, mae gwasanaethau'n dal i gael eu hymestyn y tu hwnt i'w gallu ac nid yw'r glasbrint a adnewyddwyd wedi'i wireddu fel dull cydlynol eto. Mae rhanddeiliaid wedi arsylwi bod anghysondeb ar draws dealltwriaeth awdurdodau lleol o'u dyletswyddau eu hunain wrth gefnogi goroeswyr VAWDASV gyda NRPF. Mae arwyddion clir o arfer da, fel swyddogion arbenigol ar gyfer NRPF, y gellid eu hefelychu mewn mwy o awdurdodau lleol ledled Cymru.

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Istanbul ym mis Gorffennaf 2022, gan rwymo Llywodraethau'r DU a Chymru i amddiffyn menywod a merched rhag trais.[173] Mae'r Confensiwn yn cyd-fynd â Deddf VAWDASV (Cymru) 2015, gyda'r nod o atal, erlyn a dileu trais yn erbyn menywod, gan gynnwys trais domestig. Ym mis Mawrth 2024, cynhaliodd y CEHR werthusiad sylfaenol o weithrediad y DU, gan argymell gwelliannau i Lywodraethau'r DU a Chymru, gan gynnwys canlyniadau mesuradwy a gwerthusiadau rheolaidd o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.[174] Er bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Confensiwn yn galonogol, mae asesu effeithiol yn gofyn am ddangosyddion a monitro cadarn. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd i fesur effaith y Ddeddf na deall yn llawn natur groestoriadol VAWDASV.

Mae pecyn cymorth TUC Cymru yn dangos bod aflonyddu rhywiol yn rhan o ddiwylliant ehangach, di-baid o drais rhywiol a chasineb at fenywod. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gydag undebau llafur a rhanddeiliaid eraill i wella diwylliannau yn y gweithle yng Nghymru.[175]

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ym mis Ionawr 2024 yn dilyn canfyddiadau Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar raddfa'r aflonyddu hwn a'r graddau y mae wedi'i normaleiddio ar draws ysgolion a cholegau.[176] Mae'r cynllun yn gam allweddol ymlaen, er nad yw amserlenni wedi'u nodi eto ar gyfer camau gweithredu.

[170] Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: strategaeth 2022 i 2026

[171] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol Cymru 2015; Ymateb Llywodraeth Cymru: Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd, Chwefror 2024

[172] Dynodi bygythiad cenedlaethol: y Senedd i drafod mesurau i atal yr epidemig trais yn erbyn menywod a merched

[173] Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a brwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod a thrais domestig (Confensiwn Istanbul) | Materion Rhywedd

[174] Gweithredu Confensiwn Istanbul yn y DU: Gwerthusiad Sylfaenol | CEHR

[175] Aflonyddu rhywiol yn y gweithle | TUC Cymru

[176] Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg: cynllun gweithredu; Mae'n effeithio ar bawb - Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr

Mae ymgyrch ymyrraeth gynnar ac atal, Iawn, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023, yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth ynghylch trais ar sail rhywedd.[177] Mae sefydliadau'r sector wedi galw ers tro am gael mwy o ffocws ar atal felly mae'r ymrwymiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn galonogol, er na ellir asesu effaith hyn eto.

Mae pryderon parhaus am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sydd, ers dod i rym yn 2022, yn trin llety lloches fel cartref arferol yn hytrach na thai brys arbenigol. Mae'r diffyg hyblygrwydd hwn yn rhwystro gallu goroeswyr i symud o lochesau pan fo angen, gan beryglu eu diogelwch a rhoi straen ar ddarparwyr lloches.[178] Yn ogystal, mae elfennau o wrthdaro rhwng polisïau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, fel y contractau meddiannaeth a'r cymhorthdal ystafell sbâr (treth ystafell wely), yn gwaethygu'r sefyllfa, gan arwain at gyfnodau aros hirach mewn lloches oherwydd diffyg opsiynau tai amgen.[179] Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ymgysylltu â'r sector, yn enwedig darparwyr lloches, a cheisio cyd-fynd yn agosach â pholisïau Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Cyllid a chymorth

Mae data Cymorth i Ferched Cymru yn dangos, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, bod 739 o oroeswyr yng Nghymru wedi gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth yn seiliedig ar loches, a 712 o oroeswyr wedi methu cael mynediad o'r fath. Diffyg lleoedd lloches fu'r rheswm mwyaf cyffredin dros hyn ers sawl blwyddyn.[180] Mewn un arolwg, nododd bron i 70% o wasanaethau arbenigol gynnydd yn y galw o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[181]

Mae'r sector arbenigol VAWDASV yn dibynnu'n helaeth ar gyllid tymor byr, cystadleuol, sy'n ychwanegu baich gweinyddol, yn rhwystro cynllunio tymor hir, ac yn effeithio ar recriwtio a chadw staff. Mae'r her hon yn effeithio'n anghymesur ar sefydliadau llai 'gan / ar gyfer' sy'n gwasanaethu menywod ethnig lleiafrifol, anabl, LHDTC+ a mudwyr. Mae'r angen am gyllid parhaus ar gyfer sefydliadau sy'n mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr cymhleth a chroestoriadol yn dod yn fwyfwy hanfodol.[182]

> *"Dyw'r pwysau ar wasanaethau ddim yn dangos unrhyw arwydd o leddfu, yn wir mae'n ymddangos ei fod yn waeth flwyddyn ar ôl blwyddyn"*
> SARA KIRKPATRICK, FERCHED CYMRU [183]

Mae'r strategaeth VAWDASV wedi'i hadnewyddu yn ymrwymo i ddatblygu system gomisiynu cynaliadwy o fewn y trydydd sector, gan ganolbwyntio ar wella trwy gydweithredu a darparu sefydlogrwydd. Fodd bynnag, nid yw sefydliadau'r trydydd sector wedi gweld y buddion eto ac maent yn parhau i ddibynnu ar gyllid ansicr, tymor byr o ffynonellau amrywiol. Byddai cylchoedd cyllido tymor hwy yn caniatáu i ddarparwyr gymryd ymagwedd ragweithiol yn hytrach nag adweithiol, ac mae'n hen bryd gwneud cynnydd yn hyn o beth.

[177] Iawn
[178] Briffiad ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | Cymorth i Ferched Cymru
[179] Cyflwr y Sector 2023-2024 | Cymorth i Ferched Cymru
[180] Cyflwr y Sector 2023-2024 | Cymorth i Ferched Cymru
[181] Cyflwr y Sector 2023-2024 | Cymorth i Ferched Cymru
[182] Lansio Adroddiad Ymchwil Priodas dan Orfod Bawso
[183] Cyflwr y Sector 2023-24 | Cymorth i Ferched Cymru

Mae cyllideb VAWDASV Llywodraeth Cymru wedi aros ar yr un lefel — £8m refeniw a £2.2m cyfalaf — ers cyllideb 2022/23.[184] Er ei bod yn gadarnhaol bod y gyllideb hon wedi'i diogelu yng nghanol toriadau mewn mannau eraill, mae'r diffyg cynnydd yn golygu gostyngiad mewn termau real ers Cerdyn Sgorio 2022. Mae costau cynyddol ar draws y sector yn ei gwneud hi'n anodd i ddarparwyr gwasanaethau amsugno'r costau cynyddol hyn heb o leiaf dwf yn y gyllideb sy'n gysylltiedig â chwyddiant.

Yng nghyllideb 2024/25 gwelwyd cynnydd yng Ngrant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru (HSG) ar gyfer prosiectau sydd wedi'u hanelu at atal digartrefedd a chefnogi grwpiau fel goroeswyr VAWDASV, gan gynnwys trwy lochesau. Mae'r cynnydd hwn yn cydnabod y pwysau difrifol ar wasanaethau ac yn welliant cyllidebol bach ers 2022. Fodd bynnag, mae'n dilyn blynyddoedd o danariannu mewn perthynas â chwyddiant a'r galw.

Gwelliant allweddol ers Cerdyn Sgorio 2022 yw lansiad Cronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr Trais (MVASF) Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023, gan gynnig cefnogaeth argyfwng i oroeswyr VAWDASV heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF) trwy ychwanegu at gronfa Cymorth i Fudwyr sy'n Dioddef Trais (SMV) y Swyddfa Gartref. Er bod y MVASF yn darparu cymorth hanfodol ar gyfer llety a chostau byw, nid yw'n cynnwys staff cymorth i helpu menywod i lywio gwasanaethau. Mae rhanddeiliaid yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal yr MVASF ac ystyried gwerthusiad peilot SMV y Swyddfa Gartref i lywio ateb ariannu cynaliadwy i oroeswyr NRPF yng Nghymru.[185]

Mae'r Swyddfa Gartref wedi ail-ddynodi Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC) fel Consesiwn Mudwyr sy'n Dioddef Cam-drin Domestig (MVDAC), gan ehangu cymorth dros dro a chymorth mewnfudo i ystod ehangach o ymfudwyr sy'n dioddef cam-drin domestig.[186] Er bod croeso i'r ehangiad hwn, nododd rhanddeiliaid gynnydd mewn atgyfeiriadau at sefydliadau'r trydydd sector, yn enwedig gan yr heddlu. Heb gyllid digonol a chynaliadwy, bydd y sefydliadau hyn yn ei chael hi'n anodd cefnogi'r holl atgyfeiriadau y maent yn eu derbyn. Mae ymrwymiad parhaus i ddod o hyd i ateb Cymreig i oroeswyr mudol gyda NRPF yn hanfodol os mai Cymru fydd "y lle mwyaf diogel yn Ewrop i bawb."

## Cynnydd ers Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022

Datblygiad nodedig yw lansio'r strategaeth VAWDASV newydd ar gyfer 2022-26, sy'n pwysleisio atal, newid diwylliannol ac ymrwymiad i groestoriadoldeb ar draws meysydd polisi, gan gynnwys tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'r nod ehangach o wneud Cymru "y lle mwyaf diogel yn Ewrop i bawb" ac yn adlewyrchu'r angen brys am ddull cydlynol o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod. Yn ogystal, mae cyflwyno'r Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr Trais ym mis Ebrill 2023 yn gam sylweddol tuag at gefnogi goroeswyr NRPF yn well, roedd hyn yn fwlch critigol a nodwyd yn y Cerdyn Sgorio blaenorol.

Yn y pen draw, mae troseddau trais yn erbyn menywod a merched a adroddir yn parhau i fod yn annerbyniol o uchel, ac mae cyllideb VAWDASV Llywodraeth Cymru wedi aros yn

[184] Cyllideb Derfynol 2024 i 2025
[185] Datganiad Ysgrifenedig: Peilot Cronfa Cymorth i Fudwyr sy'n Dioddef Trais. Gorffennaf 2023
[186] Newidiadau i'r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd

ddigyfnewid ers blwyddyn ariannol 2022/23. Mae hyn yn arwain at ostyngiadau yn y tymor real o ystyried chwyddiant, gan roi pwysau aruthrol ar ddarparwyr gwasanaethau. Ar ben hynny, nid yw'r ymrwymiad i ddatblygu system o gyllid cynaliadwy o fewn y trydydd sector wedi'i wireddu eto, gan olygu bod llawer o sefydliadau yn dibynnu ar gyllid tymor byr sy'n cymhlethu cynllunio tymor hir a chadw staff. Nid yw heriau o ran trin goroeswyr NRPF, a'r straen ar wasanaethau ffoaduriaid oherwydd capasiti cyfyngedig wedi cael sylw digonol. Nid yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r galw cynyddol am wasanaethau lloches yn ddigonol o hyd, gyda llawer o oroeswyr yn dal i gael eu gwrthod oherwydd bod diffyg mannau ac adnoddau ar gael.

## ARGYMHELLION

- **Sicrhau bod y fframwaith VAWDASV 2022-26 a fframwaith Glasbrint yn arwain at weithredu mesuradwy ac effeithiol, sylfaen dystiolaeth gadarn ac adnoddau digonol i gyflawni'r ymrwymiad i groestoriadoldeb.**
- **Creu model ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol VAWDASV sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol i fenywod ag anghenion cymhleth, menywod anabl, unigolion LHDTC+ a menywod lleiafrifoedd ethnig, gyda phrosesau tendro ac adrodd symlach a chontractau tymor hir ar waith.**
- **Parhau â'r Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr Trais ar lefel blwyddyn un o leiaf, ac ehangu'r gronfa i gwmpasu staff cymorth dynodedig yn ogystal â lwfansau llety a byw.**
- **Defnyddio adroddiad y Swyddfa Gartref sydd ar ddod ar gynllun peilot Cymorth i Fudwyr sy'n Dioddef Trais i lywio ateb ariannu cynaliadwy, hirdymor yng Nghymru ar gyfer cefnogi goroeswyr heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus.**
- **Ymrwymo i sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yr adnoddau llawn i gyflawni eu dyletswyddau o amgylch NRPF drwy rannu canllawiau, adnoddau a chefnogi penodiad swyddogion NRPF arbenigol.**
- **Cyflwyno escemptiad i ffoaduriaid dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, neu gefnogi ffoaduriaid i reoli'r gwaith gweinyddol a chyfreithiol ychwanegol os na ddarperir esemptiad.**
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU ac asiantaethau casglu data i wella argaeledd data sydd wedi'i ddadgyfuno i Gymru.**
- **Gweithredu ar frys i leihau graddfa ac effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion trwy ddatblygu ymrwymiadau yng nghynllun gweithredu 2024.**

# MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB IECHYD RHYWEDD

SGÔR: OREN

Ar draws y DU, mae gan fenywod ddisgwyliad oes hirach na dynion ond maen nhw'n treulio cyfran uwch o'u bywydau mewn iechyd gwael.[187] Er bod gan fenywod ddisgwyliad oes hirach na dynion o ran blynyddoedd, mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y blynyddoedd 2020 i 2022 yn dangos bod hyn wedi gostwng yn ystod y pandemig. Yng Nghymru, gwelsom ostyngiad dramatig o dros 22 mis o gymharu â 2019 i 2021, gyda menywod bellach â disgwyliad oes *iach byrrach* na dynion.[188] Mae angen data mwy amserol ar hyn fel y gellir monitro newidiadau.

Mae bylchau iechyd ar sail rhywedd yn cael eu sbarduno gan nifer o ffactorau, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol a diffyg ymchwil i gyflyrau ffisiolegol penodol sy'n effeithio'n unig neu'n anghymesur ar fenywod. Gall menywod sy'n profi gwahaniaethu croestoriadol wynebu rhwystrau ychwanegol i gael mynediad at y gofal iechyd sydd ei angen arnynt, gan arwain at brofiadau a chanlyniadau gwaeth fyth. Erbyn hyn mae'n hysbys bod marwolaethau mamol bron i bedair gwaith yn uwch ymhlith menywod Du, a bron ddwywaith yn uwch ymhlith menywod Asiaidd.[189] Yn fwy cyffredinol, gall fod oedi o ran gwneud diagnosis a threfnu triniaeth pan ddibynnir ar aelodau'r teulu i gyfieithu yn ystod apwyntiadau meddygol, yn enwedig pan nad yw cyfieithwyr proffesiynol hyfforddedig ar gael.[190]

Mae cynrychioli profiadau a symptomau menywod lleiafrifoedd ethnig, menywod anabl, a/neu LHDTC+ yn hanfodol wrth arfogi gweithwyr meddygol proffesiynol i nodi a mynd i'r afael â materion iechyd i bob menyw. Mae hyn yn cynnwys digon o ymwybyddiaeth o gam-drin 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, gan gynnwys priodas dan orfod a FGM.[191]

## Mentrau ac ymchwil

Ers 2022, mae cynnydd wedi bod ar gynllun Iechyd Menywod a Merched y GIG, wrth ganolbwyntio ar sefydlu'r seilwaith a'r llywodraethu angenrheidiol. Mae'n hanfodol bod y cynllun bellach yn cael ei ddatblygu a'i weithredu'n gyflym. Rhaid cyd-gynhyrchu'r cynllun hwn gyda'r cyhoedd a chleifion, a dylai ystyried iechyd menywod drwy gydol cwrs bywyd ac yn gyfannol y tu hwnt i ffocws cul ar iechyd atgenhedlu.[192] Mae yna lawer o gyflyrau iechyd sy'n effeithio'n unigryw neu'n anghymesur ar fenywod, cyflyrau nad ydyn nhw'n derbyn y gofal gorau posibl ar hyn o bryd, fel asthma a chlefyd y galon. [193]

[187] Disgwyliad oes a chyflwr iechyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | Swyddfa Ystadegau Gwladol Nid oedd data ar gyfer yr Alban ar gael adeg cyhoeddi

[188] Ibid.

[189] MBRRACE-UK, Saving Lives, Improving Mothers' Care: Lessons learned to inform maternity care from the UK and Ireland Confidential Enquiries into Maternal Deaths and Morbidity 2018–20, November 2022

[190] Life or death medical mistakes happen due to bad translation

[191] Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd

[192] Iechyd Menywod Cymru:  Y Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched a'r Rhai a Neilltuwyd yn Fenywaidd adeg Geni 2022

[193] Asthma is Worse for Women | Asthma + Lung UK; Bias and Biology | British Heart Foundation

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad sylweddol i iechyd menywod yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig mewn ymdrechion i ddadstigmateiddio'r mislif wrth fynd i'r afael â'r heriau cysylltiedig. Mae Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif 2023-2028 yn amlygu sawl mater allweddol, gan gynnwys y cysylltiad rhwng y mislif a phryderon iechyd ehangach, goblygiadau yn y gweithle a chymryd rhan mewn chwaraeon a diwylliant.[194]

Cam cadarnhaol arall yw integreiddio lles mislifol i'r cwricwlwm addysg, er bod angen mwy o eglurder ar y cynnwys a'r ddarpariaeth benodol.[195] Cyn ei gyflwyno, mynegwyd pryderon drwy ddeiseb y Senedd am ddiffyg addysg am y mislif mewn ysgolion.[196]

Mae'r Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil mewn Ysgolion bellach yn cynnwys cwestiynau ar boen mislif a'i effaith ar bresenoldeb ysgol, a allai lywio polisïau'r dyfodol. Yn y cyfamser, mae gwefan Bloody Brilliant yn parhau i ddarparu adnoddau iechyd mislif gwerthfawr i bobl ifanc.[197] Fodd bynnag, cafodd y Grant Urddas Mislif, a oedd yn darparu cynnyrch mislif am ddim mewn ysgolion, ei dorri yng nghyllideb 2024/25. Dywedodd rhanddeiliaid fod pryderon yn codi am gynhyrchion nad oeddynt ar gael yn gwbl rhad ac am ddim ac y gallai hyn fod wedi effeithio ar y galw.[198]

Mae'r Cynllun Gofal Mamolaeth presennol yn dod i ben eleni, a bydd yn rhaid i'w olynydd gyd-fynd â strategaethau eraill, megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Rhaid i'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol a'r cynllun gweithredu sydd ar ddod fod yn ystyriol o drawma, yn gynhwysol a sicrhau gofal teg, yn enwedig i fenywod lleiafrifoedd ethnig. Dylai'r cynllun hwn hefyd gysylltu'n effeithiol â'r cynllun iechyd menywod ehangach i fynd i'r afael â materion iechyd sy'n effeithio ar brofiadau mamolaeth a newyddenedigol.

Mae buddsoddiadau diweddar mewn iechyd menywod yn galonogol. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru £750,000 i gronfa ymchwil iechyd menywod, gyda galwad gomisiwn am ymchwil ar gyfer mis Ebrill 2025, ac mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi blaenoriaethu iechyd menywod.[199] Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi cefnogi mentrau fel gwefan Endometriosis Cymru, gan gynnwys Offeryn Adrodd Symptomau, yn ogystal â'r prosiect Nid yw Poen Ddifrifol Adeg y Mislif yn Normal (SPPINN) a ariennir gan HCRW.[200]

Er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae rhanddeiliaid yn nodi bod angen mwy o waith i adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn. Rhaid dadgyfuno data yn briodol i fonitro effaith cyflyrau rhyweddol ac anryweddol ar draws gwahanol grwpiau. Mae angen i dreialon

[194] Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif: adroddiad uchafbwyntiau blynyddol 2023 i 2024 | DS Yn 2023 ailenwyd y 'Cynllun Gweithredu Strategol Drafft ar gyfer Urddas Mislif' yn Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif

[195] Cwricwlwm i Gymru: Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

[196] Change how schools educate us on periods. - Petitions

[197] Mislif Fi Cymru

[198] Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol 22/01/2024 - Senedd Cymru; Cyfarfod Llawn 21/05/2024 - Senedd Cymru

[199] Datganiad Ysgrifenedig: Y diweddaraf am Iechyd Menywod, Mawrth 2024; Cymru yn hyrwyddo ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol menywod

[200] Offeryn Adrodd ar Symptomau Endometriosis Cymru; Nid yw Poen Ddifrifol Adeg y Mislif yn Normal (SPPINN) | Ymchwil Gofal Iechyd Cymru

clinigol hefyd fod yn fwy cynrychioliadol o rywedd a nodweddion gwarchodedig eraill. Yn ogystal, dylai ymchwil ganolbwyntio ar brofiadau ac anghenion menywod anabl a niwrowahanol yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth.

*"Mae'r anghydraddoldebau a ddatgelwyd wrth graffu ar ddarparu gwasanaethau gynaecolegol yn cael eu hailadrodd yng ngofal clefydau sy'n effeithio ar ddynion a menywod, gyda menywod yn profi canlyniadau cymharol wael."*
TRINIAETH DEG I FERCHED CYMRU

### Mynediad at ofal iechyd

Mae amseroedd diagnosis ar gyfer endometriosis wedi cynyddu ar draws pedair gwlad y DU, gyda Chymru yn profi'r amseroedd aros hiraf. Yng Nghymru, cynyddodd yr amser diagnosis ar gyfartaledd o 9 mlynedd yn 2020 i 9 mlynedd ac 11 mis yn 2023.[201] Mae'r cyfnod aros hir a nifer o ymweliadau â meddygon teulu yn effeithio'n sylweddol ar gyflogaeth, addysg, iechyd meddwl a llesiant cleifion.[202] Argymhellodd Cerdyn Sgorio 2022 fod Llywodraeth Cymru yn gwella gofal iechyd endometriosis trwy ddiweddaru canllawiau, codi ymwybyddiaeth, a dyrannu cyllid. Bellach mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru un nyrs endometriosis arbenigol, sy'n gam positif. Ond mae angen mwy o waith i leihau'r oedi annerbyniol mewn diagnosis a darparu cefnogaeth ddigonol i'r 150,000 o fenywod sy'n byw gyda'r cyflwr yng Nghymru.

Mae'r mater hwn yn adlewyrchu heriau ehangach mewn gwasanaethau iechyd menywod. Canfu Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) yn ddiweddar fod 89% o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled y DU yn credu bod amseroedd aros gynaecoleg yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd cleifion.[203] Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd adroddiad ar ofal canser gynaecolegol yng Nghymru. Amlygodd yr adroddiad y canlyniadau difrifol a wynebodd menywod pan gafodd eu pryderon eu diystyru gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.[204] Mae'r straeon a amlygir yn Ymgyrch Claire yn tynnu sylw at y canfyddiadau hyn.[205] Nod y Grŵp Gweithredu Clinigol Gynaecoleg Cenedlaethol yw mynd i'r afael â gwasanaethau nad ydynt yn rhai canser y mae COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur arnynt.[206] Fodd bynnag, mae cyllid digonol yn hanfodol i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu gwireddu.

Yng Ngherdyn Sgorio 2022, argymhellwyd bod y menopos yn dod yn destun ymgyrch benodol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a bod arbenigwr menopos ar gael ym mhob meddygfa yng Nghymru.[207] Ddwy flynedd ar ôl yr argymhelliad, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r menopos wedi gwella rhyw ychydig. Erbyn hyn mae gan rai byrddau iechyd glinigau menopos arbenigol, ond mae'r rhain yn cael eu gordanysgrifio gyda rhestrau aros hir a rhaid i rai menywod deithio'n bell i gael cymorth.[208] Mae deiseb Senedd yn 2024 yn tynnu sylw at yr heriau y mae menywod mewn ardaloedd fel Gogledd Cymru yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau menopos.[209] Mae angen dybryd o hyd am wasanaethau

[201] "Dismissed, ignored and belittled" - The long road to endometriosis diagnosis in the UK | Endometriosis UK, March 2024
[202] Gofal endometriosis yng Nghymru: Darpariaeth, llwybr gofal, cynllunio'r gweithlu a mesurau ansawdd a chanlyniadau
[203] Gynaecology waiting lists leave thousands of women waiting too long for care | RCOG
[204] Unheard: Women's journey through gynaecological cancer
[205] Claire's Campaign
[206] Ein rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru
[207] Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022 | RhCM Cymru ac Oxfam Cymru
[208] Menopause: Anglesey woman faces 80-mile trip to clinic | BBC News
[209] Mae gan ferched Gogledd Cymru yr hawl i gael Gwasanaethau/Clinig Menopos yn Ysbyty Gwynedd - Deisebau

menopos arbenigol mwy eang a hygyrch ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru.
Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru wedi wynebu heriau sylweddol. Mae nifer o adolygiadau ac adroddiadau diweddar yn amlygu materion sy'n ymwneud â phrinder staffio, ansawdd gofal a darpariaeth gwasanaethau anghyson ar draws byrddau iechyd. Cafodd yr uned famolaeth yn Ysbyty Singleton yn Abertawe ei gosod o dan drefniant monitro ychwanegol ar ôl cael ei hystyried yn "anniogel" gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.[210] Datgelodd adroddiad diweddar gan y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol faterion systemig ar draws gwasanaethau mamolaeth Cymru, gan gynnwys diffygion arweinyddiaeth, straen ar y gweithlu a rhwystrau diwylliannol i wella.[211] Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at anghydraddoldebau parhaus, gan arwain at rai menywod yn derbyn safonau gofal is yn seiliedig ar eu lleoliad daearyddol.

Mae yna hefyd ddiffyg mynediad at ofal erthyliad yng Nghymru, gyda menywod sy'n ceisio'r gofal hwn yn cael eu hanfon yn rheolaidd i Loegr i gael triniaeth. Mewn sawl rhan o'r wlad, does dim gofal erthyliad y tu hwnt i 9 wythnos o feichiogrwydd, ac ar ôl 18 wythnos does dim gofal ar gael yng Nghymru o gwbl.[212]

Yn dilyn argymhelliad arall yng Ngherdyn Sgorio 2022, bydd uned mamau a babanod rhanbarthol newydd yn cael ei hagor i wasanaethu menywod o Ogledd Cymru.[213] Er bod cynnydd i wella mynediad at y gwasanaethau hanfodol hyn i'w groesawu, mae'r penderfyniad i leoli'r uned ym Mharc Iechyd Iarlles Caer yn Lloegr wedi cael ei feirniadu ar sail amseroedd teithio hir a diffyg darpariaeth Gymraeg.[214] Yn ogystal, mae diffyg clinig camesgoriad cyson penodol yng Nghymru yn parhau i achosi siom.

## Cynnydd ers Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022

Mae ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i iechyd menywod, fel y gwelir gan waith a wnaed tuag at gynllun Iechyd Menywod a Merched y GIG i sefydlu seilwaith cynhwysfawr ar gyfer iechyd menywod, yn golygu cynnydd allweddol. Er bod cerdyn sgorio 2022 yn tynnu sylw at amser aros hiraf y DU o bron i ddeng mlynedd ar gyfer diagnosis endometriosis, mae presenoldeb nyrs arbenigol ym mhob bwrdd iechyd yn gam sicr tuag at wella. Yn ogystal, mae mentrau fel Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif yn dangos ffocws cynyddol ar iechyd a lles mislif, gydag addysg am y mislif wedi'i chynnwys yng nghwricwlwm yr ysgol.

Er bod yr ymdrechion hyn yn dangos symudiad addawol tuag at gydnabod a mynd i'r afael â materion iechyd menywod, mae menywod yng Nghymru yn dal i wynebu anghysondebau sylweddol o ran cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd amserol. Mae hyn yn arbennig o wir am fenywod o leiafrifoedd ethnig. Mae'r diffyg gwasanaethau menopos digonol a nodwyd yng Ngherdyn Sgorio 2022 yn parhau i fod yn bryder, gan fod llawer o fenywod yn parhau i wynebu anghysondebau daearyddol o ran mynediad. Roedd

[210] Angen gwella gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Singleton yn Abertawe ar unwaith | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
[211] Y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yng Nghymru
[212] Women's Equality Party Wales; GIG 111 Cymru - Iechyd A-Z: Erthylu
[213] Uned newydd i drawsnewid profiad iechyd meddwl ar gyfer mamau newydd a darpar famau
[214] Welsh mum expected to access mother and baby unit mental health service in England sparks debate | Cambrian News

problemau a nodwyd eisoes o ran prinder staffio ac ansawdd gofal mewn gwasanaethau mamolaeth yn dal heb eu datrys i raddau helaeth, ac mae'r pwysau bellach wedi cyrraedd pwynt argyfwng mewn rhai ardaloedd. Mae'r heriau parhaus hyn yn tanlinellu'r angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach, yn enwedig wrth sicrhau mynediad teg i ofal iechyd ar draws yr holl ddemograffeg ac ardaloedd daearyddol, ac i ddatblygu atebion wedi'u targedu ar gyfer y grwpiau mwyaf ymylol, gan gynnwys menywod lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n wynebu anfanteision economaidd-gymdeithasol

## ARGYMHELLION

- **Sicrhau bod gan fenywod ym mhob ardal yng Nghymru fynediad at wasanaethau iechyd o ansawdd uchel gan gynnwys gofal mamolaeth, gwasanaethau menopos a gofal erthyliad.**
- **Darparu adnoddau a chymorth ar gyfer Cynllun Iechyd Menywod a Merched yng Nghymru, gan sicrhau ei fod yn cael ei gyd-gynhyrchu gydag eiriolwyr cyhoeddus a chleifion yn bartneriaid cyfartal.**
- **Sicrhau bod y Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yn cael ei gyflenwi'n ddigonol, ei gyd-gynhyrchu â chleifion a staff ac yn cynnwys targedau clir ar gyfer lleihau colli babanod yn ystod beichiogrwydd, marwolaethau babanod, gwella diogelwch mamolaeth a dileu anghydraddoldebau.**
- **Sicrhau hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob ymarferydd gofal iechyd sy'n wynebu cleifion yn uniongyrchol, wedi'i gyd-ddatblygu gyda'r rhai sydd â phrofiad byw, gan gwmpasu cyflyrau iechyd menywod a chyflyrau sy'n effeithio ar fenywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol.**
- **Gwerthuso cyflwyno addysg am y mislif mewn ysgolion.**
- **Ehangu cymorth menopos arbenigol ar draws pob bwrdd iechyd a sicrhau bod meddygon teulu yng Nghymru yn ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar reoli'r menopos.**
- **Comisiynu gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys canolfannau endometriosis trydyddol ac o leiaf dau glinig camesgoriad cyson pwrpasol yng Nghymru.**
- **Datblygu cynnig nyrs iechyd menywod mewn gofal sylfaenol ar gyfer cyflyrau fel poen mislif difrifol, atal cenhedlu, menopos a HRT, gyda llwybrau i arbenigo mewn cyflyrau cymhleth fel endometriosis a chamesgoriad cyson.**

# CYDNABYDDIAETHAU

**Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r arbenigedd a roddwyd i ni gan y rhanddeiliaid a'r partneriaid canlynol:**

Bawso

Fforwm Gofal Cymru

Gofalwyr Cymru

Anabledd Cymru

Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

Tîm Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid (EYST)

Triniaeth Deg i Ferched Cymru

Sefydliad Materion Cymreig

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched

Cyngor Hil Cymru

Race Equality First

Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Cymorth i Ferched Cymru

Grŵp Cyllideb Menywod Cymru

# METHODOLEG

Mae'r Cerdyn Sgorio hwn yn gwerthuso bwriadau strategol Llywodraeth Cymru a gweithrediad ei pholisïau yn ymarferol wrth fynd ar drywydd y nod o wneud Cymru'n genedl ffeministaidd. Mae'n asesu amcanion, ymrwymiadau a mentrau'r llywodraeth drwy ddadansoddi dogfennau polisi, cynlluniau strategol a datganiadau cyhoeddus i ddeall ei nodau a'i blaenoriaethau. Mae'r dadansoddiad o weithrediad ac effaith yn archwilio sut mae'r polisïau hyn yn cael eu gweithredu, gan ganolbwyntio ar sut y dyrennir adnoddau a'r canlyniadau a gyflawnir. Mae'r dull deuol hwn yn tynnu sylw at lwyddiannau ac yn nodi bylchau rhwng nodau polisi a chanlyniadau gwirioneddol, gan ddarparu golwg gynhwysfawr ar gynnydd a meysydd sydd angen eu gwella.

Yn achos pob maes polisi, bu i ni ystyried datganiadau perthnasol Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Lywodraethu, deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer. Gwnaethom hefyd gasglu tystiolaeth gan arbenigwyr, dadansoddi ystadegau lle'r oeddent ar gael; a siarad ag arbenigwyr ym mhob un o'r meysydd. Rydym yn ddiolchgar i bawb a rannodd eu hamser, eu gwybodaeth a'u data. Roeddem wedi sgorio pob maes gan ddefnyddio system goleuadau traffig (coch, oren a gwyrdd), gan ddangos lefel y cynnydd tuag at gydraddoldeb i fenywod a merched yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi bod cymharu 2022 â 2024 yn heriol oherwydd cyd-destun unigryw y DU wrth ddod allan o gyfnod heriol pandemig COVID-19 yn 2022.

## YNGHYLCH RHCM CYMRU:

Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n rhydd o Wahaniaethu ar sail Rhywedd. Ymunwch â'n clymblaid i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

https://wenwales.org.uk/join-us/
Rhif yr elusen: 1145706
Rhif y cwmni: 07891533

## YNGHYLCH OXFAM:

Mae Oxfam Cymru yn credu mewn byd llawer gwell, yn rhydd o anghyfiawnder tlodi. Fel rhan o deulu Oxfam byd-eang, mae Oxfam Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru ac yn fyd-eang i fynd i'r afael â thlodi a sbarduno newid yng Nghymru ac o Gymru. Mae Oxfam Cymru yn credu bod newid yn digwydd pan ddaw pobl at ei gilydd. Rydym yn ymdrechu am fyd lle mae pob un ohonom yn cael ein grymuso gyda'r union beth sydd ei angen arnom i ffynnu.

https://oxfamapps.org/cymru/
Rhif yr elusen: 202918

**Cyhoeddwyd gan: Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru ac Oxfam Cymru**

Cyfeiriwch at yr adroddiad hwn fel a ganlyn: "RhCM Cymru ac Oxfam Cymru, Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2024, Tracio camau gweithredu Llywodraeth Cymru i hybu hawliau menywod a chydraddoldeb rhywedd"

© Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru 2024 & © Oxfam Cymru 2024.

OXFAM CYMRU

WEN Wales Cymru